
Cymraeg Safon Uwch - Help Llaw gydag astudio

# Blasu




Manon Steffan Ros

atebol

Cymraeg Safon Uwch - Help Llaw gydag astudio

# Blasu

gan

**Manon Steffan Ros**



atebol

# Cydnabyddiaethau

**Cyhoeddwyd gan © Atebol Cyfyngedig 2016**

Cedwir y cyfan o'r hawliau. Ni chaniateir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn na'i throsglwyddo ar unrhyw ffurf neu drwy unrhyw fodd, electronig neu fecanyddol, gan gynnwys llungopïo, recordio neu drwy gyfrwng unrhyw system storio ac adfer, heb ganiatâd ysgrifenedig y cyhoeddwr.

Y cyhoeddiad © Atebol Cyfyngedig, Adeiladau'r Fagwyr, Llanfihangel Genau'r Glyn, Aberystwyth,
Ceredigion SY24 5AQ

Cyhoeddwyd gan Atebol Cyfyngedig yn 2016

Diolch i'r canlynol am eu gwaith yn goruchwylio'r prosiect hwn dan nawdd Llywodraeth Cymru: Rhiannon Jenkins (Cadeirydd), Dr Non Evans, Ysgol Maes y Gwendraeth, Cefneithin; Lisa Hagen, Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon; Sioned James-Bevan, Ysgol y Creuddyn, Llandudno a Manon Steffan Ros (Awdur)


Dyluniwyd gan Ceri Jones
Golygwyd gan Eirian Jones
Noddwyd gan Lywodraeth Cymru
ISBN: 978-1-910574-43-0
**www.atebol.com**

Ariennir yn Rhannol gan
**Lywodraeth Cymru**
Part Funded by
**Welsh Government**

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Cefndir a Chyd-destun | 5 |
| 3. | Crynodeb o'r Penodau | 7 |
| 2. | Cymeriadau | 12 |
| 4. | Arwyddocâd y Bwyd | 18 |
| 5. | Prif Themâu | 33 |
| 6. | Arddull a Chrefft | 37 |
| 7. | Cymharu â Nofelau Eraill | 41 |
| 8. | Cyfweliad â'r awdur | 43 |
| 9. | Darllen Pellach | 45 |

# Cefndir a Chyd-destun




## Cefndir

Mae 'Blasu' yn nofel sy'n defnyddio thema bwyd i lunio portread o bentref gwledig ym Meirionnydd 1937-2012. Mae'n canolbwyntio ar un cymeriad, Pegi, ond wrth ddefnyddio gwahanol gymeriadau i leisio ei hanes, caiff y darllenydd ddod i'w hadnabod o wahanol safbwyntiau - rhai yn gariadus, rhai yn llawn casineb.

Yn ogystal â thrafod bwyd, mae salwch meddwl, etifeddiaeth, serch a chyfeillgarwch yn themâu amlwg yn 'Blasu'. Yn aml, bydd un thema ynghlwm ag un arall - salwch meddwl yn arwain at y posibilrwydd o gyfeillgarwch, er enghraifft, yn achos Pegi a Menna Arthur - ond mae bwyd yn gysylltiedig gyda phob un o'r themâu eraill. Caiff bwyd ei ddefnyddio fel ffordd o ddangos cariad neu gyfeillgarwch; caiff ei ddefnyddio fel arf yn y frwydr rhwng Pegi a'i mam; caiff ryseitiau eu hetifeddu a'u defnyddio eto.

## Cyd-destun

Lleolir 'Blasu' mewn ardal wledig, cymharol ddiarffordd mewn cyfnod o newid mawr mewn cymdeithas, safonau byw a gofal iechyd. Yn wir, mae'r nofel yn cynnwys amser ble aeth bwyd o fod yn brin i fod ar gael yn gymharol rad ac ar gael yn eang i bob dosbarth cymdeithasol.

Ymddangosai pethau'n ddu iawn ar unrhyw un oedd yn dioddef o salwch meddwl yn yr un cyfnod â Jennie - yn wir, yn 1937 (y flwyddyn yr aed â Jennie i Ysbyty Dinbych yn y nofel) dywedodd uwch-arolygydd meddygol yr ysbyty ei fod o'r farn nad oedd gobaith gwella 1,308 o'r 1,359 o gleifion yr ysbyty. Yn ogystal â hyn, byddai'r gwarthnod o fod yn gysylltiedig â rhywun oedd yn dioddef o salwch meddwl wedi bod yn amlwg yn y cyfnod yma.

Ar y llaw arall, mae tystiolaeth i awgrymu bod Llanegryn yn benodol wedi bod yn gymdeithas agored a chefnogol i ferched oedd yn dioddef iselder ysbryd, a hynny chwarter canrif cyn i 'Blasu' gael ei leoli yma. Yn ei chyfrol o farddoniaeth a gyhoeddwyd yn 1850, 'Telyn Egryn', mae Elen Egryn (Elin Evans, Llanegryn) yn disgrifio digalondid a thristwch, gan ddefnyddio'r trosiad o iselder fel pigyn dan ei bron. Ceir ymateb caredig a gobeithiol gan feirdd eraill i'w salwch.

Mae 'Blasu' yn dechrau yn 1937, rhwng y ddau ryfel byd. Trawsnewidiwyd Bro Dysynni gan wersylloedd milwyr, ond nid yw hyn yn cael ei ddisgrifio yn y nofel - dim ond cyfeiriad at yr ysbyty milwrol sydd ar y lôn rhwng Llanegryn a Thyddyn Sgwarnog. Gwna hyn i Lanegryn deimlo'n ynysig, hyd yn oed o fewn Bro Dysynni. Byddai'r milwyr o'r gwersylloedd wedi heidio i Dywyn, oedd yn fwy poblog ac yn meddu ar fwy o gyfleoedd i gymdeithasu.

## Cefndir yr Awdur

Ganed Manon Steffan Ros yn Rhiwlas, Dyffryn Ogwen yn 1983, a mynychodd Ysgol Gynradd Rhiwlas ac Ysgol Dyffryn Ogwen, Bethesda. Wedi gadael yr ysgol, aeth i weithio fel actores gyda Chwmni'r Frân Wen a Chwmni Theatr Bara Caws. Enillodd y Fedal Ddrama yn Eisteddfodau Cenedlaethol 2005 a 2006. Mae wedi cyhoeddi 14 o lyfrau, gan gynnwys nofelau a llyfrau i blant ifanc, yn ogystal ag ysgrifennu dramâu radio, erthyglau a storio gemau. Mae'n ysgrifennu colofn o lên micro yn wythnosol i gylchgrawn Golwg.

### Cwestiynau

- Pa mor bwysig yw lleoliad i greu naws ac awyrgylch yn 'Blasu'?
- A fyddai'r thema o fwyd wedi gweithio yn yr un ffordd petai 'Blasu' yn nofel fodern?
- A oes digon o drafod y byd y tu hwnt i gymdeithas Llanegryn yn y nofel hon?

# Crynodeb o'r Penodau

## Pennod 1 - Pegi, 2010

Mae'n ben-blwydd Pegi'n bedwar ugain, ac mae'n cael parti yng nghaffi Jonathan. Pryna Jonathan lyfr nodiadau iddi yn anrheg, gan ofyn iddi ysgrifennu ei stori yn y llyfr. Wrth fynd am dro, mae hen atgofion am gacen sinsir yn dychwelyd at Pegi. Mae'n dychwelyd i'r caffi yn awyddus i flasu cacen sinsir eto, ac yn gofyn i Jonathan am feiro er mwyn cael ysgrifennu yn ei llyfr nodiadau.

## Pennod 2 - Mai Davies, 1937

Cyflwynir cymeriad Mai Davies, gwraig weddw sy'n byw ar gyrion y pentref. Ar ôl colli ei gŵr, mae'n lleddfu ei galar gan bobi bara a chacennau, a'u dosbarthu i bobol y pentref. Un noson, daw cnoc ar ddrws Mai yng nghanol y nos. Pegi sydd yna, yn saith oed ac yn adrodd hanes dychrynllyd am ei mam yn ei hanwybyddu ac yn coginio cawl llygod mawr. Ar ôl treulio noson yn nhŷ Mai, eir a Pegi i ofal y Parchedig Jac Vaughan, sy'n addo edrych ar ôl Pegi a chysylltu gyda'i nain a'i thaid i ddod i'w nôl. Bydd rhaid i Jennie fynd i Ysbyty Dinbych.

## Pennod 3 - Siôn Pugh, 1937

Daw Siôn Pugh, taid Pegi, i hebrwng y ferch fach o'r pentref yn ôl i'w gartref i fyw gydag ef a'i wraig, Elen. Nid yw Pegi wedi cwrdd â Siôn nac Elen o'r blaen. Ar ôl ffarwelio gyda'r Parchedig Jac Vaughan, mae Pegi a Siôn yn cerdded i Dyddyn Sgwarnog, cartref Siôn ac Elen rai milltiroedd y tu allan i'r pentref. Wrth roi Pegi yn ei gwely, sylwa Elen ar arwyddion ei bod wedi cael ei hesgeuluso'n ddifrifol gan ei mam. Ond mae Pegi'n hapus yn ei chartref newydd, ac yn setlo'n sydyn i fywyd yn Nhyddyn Sgwarnog.

## Pennod 4 - Gwynfor Daniels, 1939

Gŵr sy'n byw ar ei ben ei hun yn y pentref ydi Gwynfor Daniels, ac mae'n gandryll ar ôl darganfod bod rhywun yn dwyn y ffrwythau a'r llysiau sy'n tyfu yn ei ardd. Er ei fod yn amau bechgyn drwg y pentref, mae'n dod o hyd i Pegi, yn gynnar un bore, yn dwyn tomato o'r tŷ gwydr. Esbonia Pegi nad ydi byth yn teimlo'n llawn.

## Pennod 5 - Davey Hoyle, 1944

Sipsi ifanc yw Davey Hoyle, ac mae'n pysgota wrth yr afon pan ddaw Pegi. Dydi Davey ddim yn hoff iawn ohoni, ond mae natur eu perthynas yn newid ar ôl i Davey ddal brithyll, a Pegi yn lladd y pysgodyn. Maent yn cusanu.

## Pennod 6 - Jennie Williams, 1948

Daw Jennie adref ar ôl degawd yn ysbyty meddwl Dinbych, ond mae'n glir i'r darllenydd yn syth nad yw wedi gwella. Mae Pegi a'i mam yn dychwelyd i fyw yng Nglanrafon, ac mae'r ddwy yn ddigalon a diobaith yng nghwmni ei gilydd - ymddengys fod Jennie'n casáu ei merch. Dechreua Pegi weithio yn Siop Phyllip, gan ymweld â Thyddyn Sgwarnog bob wythnos.

Ar ôl i Jennie fod yn arbennig o greulon gyda Pegi, mae'r ddwy yn cael ennyd o agosatrwydd ac anwyldeb - yr unig achlysur drwy'r nofel pan mae'r ddwy yn agos.

## Pennod 7 - Francis Phyllip, 1948

Daw'n amlwg fod Francis, mab y siop, mewn cariad â Pegi. Daw Pegi at ei ddrws yn gynnar un bore, gan ddweud ei bod wedi dod o hyd i gorff marw Jennie yn yr afon. Âi Francis i nôl ei chorff, ynghyd â'r parchedig Jac Vaughan, a'i hebrwng i'r festri.

Ar ôl angladd Jennie, mae Francis a Pegi'n mynd am dro ar y comin ac yn cael eu dal mewn storm. Mae'r ddau yn cusanu. Ar ôl dychwelyd adref, mae Francis yn datgan i'w dad ei fod o'n bwriadu priodi Pegi, er nad yw Isaac Phyllip yn hoff ohoni.

## Pennod 8 - Annie Vaughan, 1951

Er bod Annie Vaughan wedi ymddangos o'r blaen mewn penodau cynnar, mae ei rôl ym mywyd Pegi yn newid yma. Mae Pegi'n cael plentyn, Huw, a chan fod un o blant Annie yn oedran tebyg, mae'r ddwy'n dod yn ffrindiau. Gwelwn ddatblygiad ym mywyd Pegi - mae hi bellach yn wraig, yn fam, ac yn siopwraig. Teimla Annie yn flinedig a dan bwysau, ac mae'n derbyn cynnig Pegi i warchod ei phlant.

## Pennod 9 - Isaac Phyllip, 1953

Mae Isaac Phyllip, tad Francis a thad-yng-nghyfraith Pegi, yn sâl ac yn gorfod dibynnu ar Pegi i olchi'r briw ar ei goes. Mae Isaac yn casáu Pegi ac yn ei thrin yn wael. Ar ôl bod yn filain gyda hi, daw Isaac o hyd i Pegi yn gorfwyta siocled yn wyllt er mwyn ceisio lleddfu ei phryder.

## Pennod 10 - Kenneth Davies, 1958

Bu farw Mai Davies, ac mae ei mab, Kenneth, yn dychwelyd i Lanegryn i'w hangladd. Yno mae'n cwrdd â Pegi, a chawn wybod gan eu sgyrsiau nad yw Pegi wedi llwyddo i feichiogi ar ôl geni Huw. Cawn wybod hefyd fod Isaac Phyllip bellach wedi marw.

Mae Pegi'n coginio caserol i Kenneth a'i wraig er mwyn ad-dalu holl ffafrau Mai Davies a'r holl fwyd a roddodd i Pegi.

## Pennod 11 - Elen Pugh, 1964

Parha Siôn ac Elen Pugh i fyw yn Nhyddyn Sgwarnog, ac mae Pegi a Huw yn ymwelwyr cyson. Mae Elen yn pryderu am anhapusrwydd Pegi ynghylch ei diffyg ffrwythlondeb. Wrth i Elen hel atgofion, cawn wybod bod creulondeb Jennie wedi bodoli ers plentyndod, ac mai'r rheswm am y ffrae rhyngddi a'i rhieni ydi'r amheuaeth oedd ganddynt y byddai Jennie'n medru gofalu am blentyn.

## Pennod 12 - Dr Thomas, 1966

Gwelwn yma Pegi yn wynebu ei iselder am y tro cyntaf: mae'n ymweld â'i meddyg, Dr Thomas. Mae yntau'n ymweld â'i chartref yn y siop, lle cawn glywed adleisiau o salwch ei mam yn y symptomau sydd yn effeithio ar Pegi. Mae Pegi'n teimlo'n euog am y cyfnod hir y treuliodd ei mam yn Ysbyty Dinbych - mae hi wedi clywed sibrydion mai lle tywyll, creulon ydi o. Er mwyn ceisio gwneud iddi deimlo'n well, mae'r meddyg a'i glaf yn ymweld ag Ysbyty Dinbych, ond maent yn cael profiad ysgytwol o anodd yno. Er hyn, teimla Pegi fod yr ymweliad wedi bod o fudd iddi, ac yn esbonio ychydig o wenwyn ei mam.

## Pennod 13 - Menna Arthur, 1967

Mae Pegi wedi mynd ar wyliau i Bwllheli ar ei phen ei hun er mwyn ceisio gwella o gyfnod o iselder. Mae'n cwrdd â Menna ar y promenâd, ac mae'r ddwy yn cael swper yng nghartref Menna. Ar ôl iddi sylweddoli mai salwch meddyliol sy'n poeni Pegi ac nid salwch corfforol, mae'n ei hofni. Rhaid i Pegi adael yn gyflym, gan adael y ddwy'n anhapus.

## Pennod 14 - Francis Phyllip, 1969

Mae Pegi'n cael cyfnod isel arall, ac yn dychwelyd i Bwllheli ar ei phen ei hun ar wyliau, er mwyn gwella. Cawn wybod effaith iselder Pegi ar ei theulu, yn enwedig Francis, sy'n gorfod smalio mai wedi mynd ar wyliau gyda ffrind mae Pegi. Mae Annie'n amheus, a dyweda Huw yn blwmp ac yn blaen ei fod o'n deall nad yw ei fam yn iach. Mae'n datgelu arwyddion o anhwylder bwyta ei fam - pecynnau siocled gwag, a hanesion amdani'n gorfwyta ac yn llwgu ei hun am yn ail. Pan ddaw Pegi'n ôl o Bwllheli, mae gan Huw gynlluniau iddi agor caffi yn Nhywyn er mwyn cymryd ei meddwl oddi ar ei digalondid. Er nad yw'n dweud dim, awgrymir bod Pegi'n anhapus bod ei salwch meddwl yn cael ei drafod yn agored ar ei haelwyd.

## Pennod 15 - Merfyn Thomas, 1970

Pryna Francis a Pegi gaffi ar y promenâd yn Nhywyn gan Merfyn Thomas, y gwerthwr tai. O'r tro cyntaf iddo ei chyfarfod, caiff Merfyn ei ddenu gan Pegi, a phan mae'r caffi yn agor a Pegi yn gyfrifol am ei redeg, daw Merfyn yn gwsmer rheolaidd. Mae'n gwirioni ar Pegi, ac yn syrthio mewn cariad â hi. Cynydda'r tensiwn rhywiol rhwng y ddau, ond ar ôl i Merfyn gydio yn llaw Pegi, mae Pegi'n penderfynu gwerthu'r caffi a dychwelyd i dreulio'i dyddiau yn y siop yng nghwmni Francis.

## Pennod 16 - Susan Vaughan, 1970

Mae Siw wedi bod yn canlyn â Huw, mab Pegi a Francis, ond mae'n ddigalon ar ôl i Huw ddod â'r berthynas i ben cyn iddo symud i Fanceinion. Teimla Siw yn ddigyfeiriad - ei hunig gynllun oedd priodi Huw a phlanta.
Daw newid mawr i fywyd Pegi a Francis - maen nhw'n mabwysiadu Jonathan, bachgen bach o Lerpwl. Dechreua Siw edrych ar ei ôl a dysgu Cymraeg iddo, a cheisio'i ddarbwyllo i fwyta. Mae Pegi'n coginio cyris iddo, gan feddwl, am ei fod o'n fachgen croenddu, mai dyna'r bwyd yr oedd o'n arfer bwyta. Dysga Siw mai bwyd traddodiadol Prydeinig sydd at ddant Jonathan.

## Pennod 17 - Huw Phyllip, 1976

Ar ôl cyfnod ym Manceinion, dychwela Huw i Lanegryn ar wyliau gyda'i gariad, Maria, Cymraes alltud arall o'r ddinas. Yn ystod eu cyfnod yno, caiff Huw ddadrithiad wrth iddo weld ymateb Pegi at Maria, ac mae'n sylweddoli bod ei gariad yn dioddef o anhwylder bwyta.

## Pennod 18 - Annie Vaughan, 1987

Daw Annie i wybod ei bod yn dioddef o gancr a bod angen triniaeth arni. Mae'n troi at Pegi am gefnogaeth ymarferol ac emosiynol, ac mae cyfeillgarwch y ddwy yn gysur iddi wrth dderbyn triniaeth sy'n gwneud iddi deimlo'n sâl a blinedig. Ymddangosa Annie'n rhwystredig ac yn emosiynol bell oddi wrth Jac, ei gŵr.
Pan ddaw diwrnod Nadolig, trefna Pegi ddifyrrwch i deulu Annie ar ôl cinio er mwyn rhoi cyfle i'w ffrind gorau orffwys.

## Pennod 19 - Siôn Phyllip, 1990

Mab Huw a Maria yw Siôn, ac mae ar ei wyliau gyda'i nain a'i daid yn Llanegryn. Gwelwn ochr llawn hwyl ac asbri o Pegi wrth iddi fynd yn hŷn. Caiff Siôn bleser o gyd-gerdded â'i nain a chlywed ei hen hanesion.

## Pennod 20 - Jac Vaughan, 1997

Daeth tro ar fyd i Pegi a Francis wedi iddynt ymddeol a chau'r siop. Penderfyna'r ddau symud i Lanrafon, cartref genedigol Pegi, er mwyn i Jonathan gael agor caffi yn y siop. Ar noson agoriadol y caffi, caiff Pegi, Francis, Annie a Jac amser wrth eu boddau.
Y noson honno, mae Annie'n marw yn ei chwsg. Âi Jac i'r caffi yn y bore i dorri'r newyddion i Pegi.

## Pennod 21 - Huw Phyllip, 2008

Mae Huw yn clywed fod Pegi wedi dioddef strôc, ac mae'n gyrru o'i gartref yn y gogledd i ymweld â'i fam yn yr ysbyty. Caiff ei ddychryn gan y dirywiad ynddi. Ychydig wythnosau'n ddiweddarach, daw Siôn a'i deulu i Lanegryn i ddathlu'r Nadolig. Pwysleisir gwendid corfforol Pegi a'i diffyg archwaeth bwyd.
Cawn wybod yma fod Huw wedi clywed cyfrinach gan ei fam pan roedd o'n blentyn, ond ni chawn wybod beth ydi'r gyfrinach.

## Pennod 22 - Pegi, 2012

Mae Pegi'n teimlo'i bod yn agos at farw, ac mae'n hel atgofion. Cawn wybod beth ydi''r gyfrinach a rannodd gyda Huw pan roedd o'n fachgen ifanc - bod Pegi wedi lladd ei mam. Nid yw Pegi'n difaru'r weithred, ond mae'n difaru dweud wrth Huw.

## Pennod 23 - Jonathan Phyllip, 2012

Bu farw Pegi'n dawel yn ei chwsg. Ychydig wythnosau'n ddiweddarach, mae Jonathan yn clirio'i heiddo pan mae'n dod o hyd i'r llyfr nodiadau y prynodd iddi ar ei phen-blwydd yn bedwar ugain. Mae Pegi wedi ei lenwi gyda ryseitiau.

## Cwestiynau

- Cymharwch y portread o Pegi sydd ym mhennod Jennie Williams a phennod Isaac Phyllip.
- A yw'r Pegi a welwn ym mhennod Merfyn Thomas yr un fath a'r Pegi a welwn ym mhenodau Francis Phyllip?
- Cymharwch yr effaith y ceir y cymeriadau ymylol - Kenneth Davies, Dr Thomas, Menna Arthur - ar ddatblygiad y plot a datblygiad cymeriad Pegi.
- Beth ydi'r trobwynt ym mywyd Pegi?

# Cymeriadau

**Pegi**

Er mai Pegi yw prif gymeriad y nofel, mae'r darllenydd yn dod i'w hadnabod drwy lygaid y cymeriadau eraill. Ar adegau, bydd Pegi'n ymddangos yn gwbl wahanol i'r disgwyl. Yn amlach na pheidio, caiff ei phortreadu'n fodlon ac yn llawen, ond weithiau caiff y darllenydd weld ei hansicrwydd a'i thristwch.

Mae perthynas Pegi gyda bwyd yn thema drwy gydol y llyfr, a chaiff y darllenydd weld gwraidd y berthynas yma a'r ffordd mae'n newid a datblygu gyda'r blynyddoedd.

Y rhan fwyaf o'r amser, ymddangosa Pegi yn gymeriad annwyl a charedig, ond mae adegau pan welwn ochr wahanol iddi, pan mae'n anwadal ac yn ansefydlog. Er bod y darllenydd yn ymwybodol o'r rhesymau y tu ôl i'w phryderon a'i phroblemau, nid yw'r cymeriadau i gyd yn ymwybodol o gefndir anodd Pegi.

Ar ddiwedd y nofel, pan ddaw'r darllenydd i wybod y gwirionedd am farwolaeth Jennie, gellir ail-ystyried profiadau Pegi yng ngoleuni teimladau o euogrwydd.

**Mai Davies**

Yn wraig weddw, mae Mai yn unig ac yn feddylgar. A hithau wedi treulio bywyd yn coginio i'w gŵr a'i mab, mae'n parhau i goginio i bobol y pentref nawr ei bod ar ei phen ei hun. Mae Mai yn gymeriad arwyddocaol iawn, gan mai hi sy'n dangos y caredigrwydd cyntaf at Pegi, a hynny drwy roi cacen sinsir iddi.

**Siôn Pugh**

Profiad emosiynol anodd i Siôn yw cwrdd â'i wyres am y tro cyntaf. Daw'r darllenydd i wybod ei fod wedi meddwl amdani ac wedi dychmygu'r ffordd roedd yn edrych cyn cyfarfod Pegi. Ymddengys yn ddyn addfwyn, er ei fod yn colli ei dymer â Jennie pan ddaw i wybod ei bod yn feichiog.

**Gwynfor Daniel**

Cymeriad ymylol yw Gwynfor Daniel, ac nid yw'r darllenydd yn cael clywed dim am ei gefndir, ac, yn wir, ychydig iawn am ei gymeriad. Mae'n trysori'r llysiau y tyfai yn yr ardd, ac efallai mai hyn sy'n arwain at Pegi'n ymddiried ynddo ddigon i geisio esbonio ei pherthynas gymhleth â bwyd.

**Davey Hoyle**

Unwaith eto, rôl fyrhoedlog a gaiff Davey ym mywyd Pegi, ond mae'n gymeriad cryf sy'n nodweddiadol o rwystredigaeth glasoed. Ac yntau'n sipsi, mae cymhlethdod ychwanegol i gymeriad Davey sy'n cyfateb i ryw raddau gyda'r holl gymhlethdodau sydd eisoes wedi bod ym mywyd Pegi.

**Jennie Williams**

Dyma gymeriad creulon, hunanol, sy'n anodd ei dirnad. Gŵyr y darllenydd o'r dechrau fod Jennie'n dioddef o salwch meddwl enbyd, ond amlyga ei hochr greulon pan mae'n dychwelyd o Ddinbych ac yn gyson geisio gwylltio neu frifo Pegi. Cawn wybod bod yr elfen yma wedi bod yn rhan o'i chymeriad ers plentyndod, a'i chreulondeb tuag at oen bach yn adlais o'r ffordd y mae'n trin Pegi'n ddiweddarach. Fodd bynnag, ar ddiwedd y nofel cawn weld ochr wahanol o Jennie sy'n esbonio mymryn o'i theimladau ei hun tuag at ei afiechyd meddwl.

**Francis Phyllip**

Mae Francis yn gymeriad sy'n gwirioni ar Pegi, nid yn unig ar ddechrau eu perthynas pan yn bobol ifanc, ond trwy gydol eu perthynas hefyd. Mae'n addfwyn ac yn garedig, ac yn cynnig bywyd newydd i Pegi. Mae'n gadael iddi reoli eu bywydau mewn rhai ffyrdd - nid yw'n cwestiynu ei hangen i fynd i ffwrdd i Bwllheli bob hyn a hyn, a hi sy'n llywio'r penderfyniad i fabwysiadu Jonathan.

**Annie Vaughan**

Fel ffrind pennaf Pegi, mae Annie'n gymeriad sydd mor bwysig i'r nofel â chymeriad Pegi a Francis. Dyma gymeriad sy'n newid ei delwedd dros gyfnod y stori. Mae'n ymddangos yn gyntaf fel gwraig y gweinidog, yn daclus a pherffaith a mymryn yn chwithig gyda phlentyn fel Pegi. Ond mae'n dod yn ffrind i Pegi, a chawn weld, er bod parchusrwydd a phwysigrwydd delwedd yn bwysig iddi, ei bod yn llawn hwyl a chwerthin.

**Isaac Phyllip**

Mae Isaac yn llais milain ym mywyd Pegi, yn ei hatgoffa o'r gorffennol y mae hi'n ceisio'i anghofio. Mae creulondeb yr hen ŵr yn aflan, a drwy bigo arni a cheisio'i chythruddo yn barhaol, caiff Isaac bleser o wylltio Pegi - y tro cyntaf, yn wir, i ni ei gweld hi'n colli rheolaeth ers iddi briodi Francis. Cawn wybod hanes Isaac, a'r rheswm ei fod yn ŵr mor chwerw, ac mae'r gwrthgyferbyniad rhwng ei ymdriniaeth ciaidd o Pegi a'i gariad amlwg tuag at ei ddiweddar wraig yn drawiadol.

**Kenneth Davies**

Daw Kenneth fel dylanwad dinesig i fyd pentrefol Llanegryn, ac mae'n amlwg nad yw'n gysurus ym mro ei febyd. Er nad yw'n gymeriad canolog, mae'n symbol o newid bach ond arwyddocaol yng nghymuned Llanegryn - mudo meibion y pentref i'r ddinas. Pan ddaw yn ôl i angladd ei fam, mae teimlad bod marwolaeth Mai yn symbol o farwolaeth y gymuned fel ag yr oedd. Caiff Kenneth ei ddenu at Pegi yn yr un ffordd gnawdol, cyntefig ac sy'n cael ei ail-adrodd gan wahanol ddynion drwy gydol y nofel.

**Elen Pugh**

Portreadir Elen fel y fam berffaith i Pegi - mae'n gefnogol, yn annwyl ac yn gyfeillgar. Yn wir, mae'n gymeriad sy'n teimlo fel gwrthbwynt i greulondeb ac esgeulustod Jennie. Yn union fel mae Pegi'n cael ail gyfle ar gael magwraeth hapus a sefydlog yng ngofal Elen, mae hithau'n cael ail gyfle i fod yn fam gyda'i hwyres. Yn anarferol i Pegi, mae'n rhannu gofidiau gyda'i nain hyd yn oed pan mae'n oedolyn - arwydd o'u hagosatrwydd.

**Dr Thomas**

Gwelwn ochr dywyll iawn o Pegi drwy lygaid Dr Thomas, tra'n gweld, hefyd, ei chwant ef ei hun tuag at ei glaf bregus. Mae elfen gref o hunan-ffieiddio gan Dr Thomas, ac yntau'n cael ei ddenu'n rhywiol at Pegi tra mae hi mewn gwendid meddyliol dwys. Mae atgofion Dr Thomas yn ategu'r cyffelybiaethau rhwng Pegi a'i mam, yn gorfforol ac o ran iechyd meddwl.

**Menna Arthur**

Mae Menna'n gymeriad unig, ecsentrig sy'n byw ar ei phen ei hun ym Mhwllheli pan mae'n cwrdd â Pegi. Ceir awgrym bod ganddi stori ddifyr yn gefndir pan fydd Pegi'n holi am ei meibion, ond ni chaiff y darllenydd glywed ei hanes. Mae'r newid yn ei hagwedd tuag at Pegi pan ddaw i wybod am ei hafiechyd meddwl yn drawiadol, ac yn symbol o agwedd cymdeithas.

**Merfyn Thomas**

Portreadir Merfyn yn gyfan gwbl mewn perthynas i'w obsesiwn gyda Pegi, ac ni chawn ddim o'i hanes na'i gefndir. Gellid dadlau bod Merfyn yn symbol o ddylanwad y byd y tu allan i Lanegryn ar Pegi - mae'r ffaith iddi adael y pentref yn bygwth ei hapusrwydd a'i phriodas. Mae holl gymeriad Merfyn yn adlewyrchiad o'i berthynas gyda Pegi - nid yw'r darllenydd yn dod i adnabod unrhyw agweddau eraill ar ei bersonoliaeth.

**Susan Vaughan**

Er bod Susan wedi ymddangos yn y nofel ers ei phlentyndod, daw'r darllenydd i'w hadnabod yn iawn pan mae mewn glasoed ac yn torri ei chalon ar ôl i Huw ei gadael. Mae'n ddigyfeiriad ac yn ddigalon, ond yn ystod y nofel, mae ei chysylltiad â Jonathan yn ei hachub ac yn rhoi cyfle iddi gael cysur o fod yn famol. Mae Susan yn esiampl o gymeriad ifanc sy'n penderfynu peidio gadael Llanegryn, ac mae ei chadernid, ei gofal a'i dibynadwyedd tua diwedd y nofel yn atgoffa darllenydd o Elen Pugh neu Mai Davies.

**Huw Phyllip**

Mae Huw Phyllip yn gymeriad cymleth sy'n anodd ei adnabod tan tua diwedd y nofel. Dywedodd Susan Vaughan: "Penderfynodd fy ffrindiau ysgol ei fod o un ai'n od neu'n gymeriad gwantan" ac mae ei disgrifiad ohono'n gwylio gêm bêl-droed yn arwain darllenydd i feddwl ei fod yn ymdrin â'r byd mewn ffordd wahanol i'w gyfoedion. Mae Huw yn adnabod symptomau afiechyd meddwl ei fam yn well na neb, ac mae'n hawdd i ddarllenydd gydymdeimlo gyda'i angen i ffoi i'r ddinas.

**Siôn Phyllip**

Cawn weld holl gymeriadau'r nofel a'u cynefin drwy lygaid newydd Siôn, mab Huw, pan mae'n ymweld â Pegi a Francis pan yn fachgen ifanc. Ymddangosa Siôn yn blentyn bodlon, dibryder, sy'n gwrthgyferbynnu gyda'r portread o Pegi yn blentyn ar ddechrau'r nofel. Nid oes ganddo unrhyw syniad am gymhlethdodau hanes ei deulu na chefndir anodd ei nain.

**Jac Vaughan**

Fel Francis, mae Jac yn ŵr annwyl, dibynadwy, er bod ei berthynas â'i wraig yn fwy simsan na pherthynas Pegi ac Annie. O'r adeg y cymerodd ofal o Pegi pan roedd hi'n blentyn hyd at farwolaeth ei wraig, Annie, ymddangosa Jac fel dyn caredig a chefnogol. Yn wir, mae ei gymeriad difflach yn gwrthgyferbynu gyda Annie a Pegi, sydd ill dwy yn gymhleth ac weithiau'n danllyd.

**Jonathan Phyllip**

Mae dyfodiad Jonathan i Lanegryn yn dynodi newid yn awyrgylch y nofel - cawn wybod yn ddiweddarach na chafodd Pegi 'run pwl o ansefydlogrwydd meddyliol ar ôl hynny. Er i Annie ddatgan pryder cyn i Jonathan gyrraedd y byddai'n anodd i fachgen du o Lerpwl ffitio i gymuned bentrefol Gymraeg fel Llanegryn, mae Jonathan yn profi'r gwrthwyneb ac yn ffitio i'r ardal yn well na Huw. Mae Jonathan yn barhad o werthoedd ac arferion ei rieni yn llawer mwy nag ydi Huw.

## Cwestiynau

- Pwy, yn eich barn chi, yw'r person pwysicaf ym mywyd Pegi?
- Pa is-gymeriad sy'n ychwanegu fwyaf at y nofel?
- Trafodwch sut y portreadir priodas yn 'Blasu'.
- Lluniwch linell amser ar gyfer Pegi, gan nodi prif ddigwyddiadau ei bywyd a datblygiad ei chymeriad.
- Trafodwch y gwahaniaeth yn y portread o Pegi a geir gan Francis Phyllip, a'r un a geir gan ei dad, Isaac Phyllip.

# Arwyddocâd y Bwyd

## Cacen Sinsir

Y rysáit am gacen sinsir ydi'r cyntaf i ymddangos yn y nofel, ac mae'r gacen yn ymddangos dro ar ôl tro. Yn wir, yr atgof am gacen sinsir Mai Davies sy'n ysgogi Pegi i ddechrau cofnodi'r ryseitiau sy'n gerrig sail i'r nofel.

Pan ymddengys y gacen sinsir am y tro cyntaf ym mhennod Mai Davies, mae'n cynrychioli gofal a chariad yr hen wraig tuag at Pegi. Dylid nodi nad oes stori i Pegi cyn ei bod yn saith oed, ac efallai bod hynny'n dynodi nad oedd ganddi atgofion o fwyd cysurlon, cofiadwy cyn hynny, nac ychwaith unrhyw ofal annwyl a chariadus. Mae stori Pegi'n dechrau gyda'r bwyd blasus cyntaf, sy'n gosod y cynsail ar gyfer gweddill ei bywyd a'r cysylltiad sydd ganddi rhwng bwyd a phrofiadau emosiynol.

Mae brwdfrydedd Pegi tuag at y gacen sinsir pan mae'n ei 'blasu' am y tro cyntaf yn pwysleisio'r esgeulustod y mae wedi ei ddioddef dan ofal ei Mam. Gwyddai'r darllenydd erbyn hyn am wallgofrwydd Jennie, a'r ffaith iddi goginio cawl yn cynnwys llygoden fawr yn gynharach yn y dydd, ac felly mae'r disgrifiad o Pegi yn bwyta'r gacen yn ingol:-

> *" 'O Mrs Davies, mae hwn yn anhygoel!' Dechreuodd dorri darnau mwy â'i dwylo, cyn rhwygo lympiau tewion, brown a'u stwffio i'w cheg fach. 'O, diolch, Mrs Davies!' "*
>
> *(tudalen 22)*

Yn y bennod nesaf - pennod Siôn Pugh - mae Mai Davies yn cynnig pecyn bach yn llawn o'r gacen sinsir i Pegi wrth iddi gerdded i'w chartref newydd gyda'i thaid, ac mae'r eneth fach a'i thaid yn rhannu darn o'r gacen. Mae'n foment allweddol yn natblygiad perthynas y taid a'i wyres. Gellir ystyried fod Mai Davies yn trosglwyddo'r gofal o Pegi wrth roi'r gacen iddi hi a'i thaid, ac mae cacen sinsir yn hollbwysig mewn ffurfio'r ddwy berthynas saff, gofalus cyntaf ym mywyd Pegi - Mai a Siôn.

Atgofion gwahanol sydd yn clymu Mai Davies a'r gacen sinsir - wrth ei phobi, mae'n hel atgofion am Tomi, ei diweddar ŵr, gan mai dyma oedd ei hoff gacen. Mae arogl y gacen fel petai'n atgyfodi ysbryd Tomi:-

> *"Bron na allwn ei deimlo yma, ei ysbryd yn yr oglau pobi. Bron na allwn glywed clicied y drws cefn, sŵn ei fwtsias ar y llechi a griddfan y gadair ger y lle tân wrth iddo orffwys. Ei fysedd yn mwytho'i fwstash, ei lygaid yn gwenu. 'Beth ydi'r ogla?' Cellwair, wrth gwrs. Mi wyddai beth oedd yr oglau, doedd dim byd arall yn debyg. Torri sgwâr wedyn, un anarferol o fawr i ddyn mor gymedrol fel arfer. Byddwn innau'n teimlo fel petai rhyw lawenydd yn gwasgu'i law am fy nghalon. Roeddwn i'n ei garu o, ac roedd yntau'n caru fy mwyd i."*
>
> *(tudalen 13)*

Mae'n amlwg o'r dyfyniad hwn fod coginio i Tomi wedi bod yn rhan bwysig o'r ffordd roedd Mai yn dangos ei chariad tuag ato. Mae'r llinell olaf yn awgrymu efallai nad oedd Mai yn teimlo fod Tomi yn ei charu, ond roedd ei bwyd yn ddigon da i'w garu.

Ym mhennod gyntaf y nofel, awgryma Pegi fod Jonathan, ei mab, yn pobi cacen sinsir ar gyfer y caffi. Gellir dadlau bod hyn yn ffordd o basio'r gofal y cafodd gan Mai Davies ymlaen i'w mab, neu o leiaf yn dechrau ceisio rhannu ei hetifeddiaeth o ran bwyd.

## Pwdin Barlys

Mae pwdin barlys yn fwyd maethlon, rhad, oedd yn cael ei weini mewn cartrefi a ffermdai ym Mro Dysynni yn ystod degawdau cyntaf yr ugeinfed ganrif. Fe'i defnyddir ym mhennod Siôn Pugh i gynrychioli gofal a chariad. Mae'r rysáit yn un sy'n llaethog a hufennog iawn, gan ddwyn i feddwl gofal mamol, a fu ar goll ym mywyd Pegi tan nawr.

Eto, cawn ddarllen am archwaeth Pegi am fwyd wrth iddi fwyta pwdin barlys ei nain i frecwast:-

> *"Llwythai ei llwy nes bod y barlys melys, hufennog yn gorlifo oddi arni, a chodai'r llwyaid nesaf cyn iddi lyncu'r un oedd yn ei cheg. Crychai ei thalcen, gan ganolbwyntio'n llwyr ar y bwyd o'i blaen."*
>
> *(tudalen 40)*

Ond nid yw Pegi wedi arfer gyda bwyd mor drwm, ac mae'n cyfogi'r cyfan dros y buarth. Mae'r analluedd corfforol yma i dreulio'i bwyd yn adleisio'i analluedd emosiynol i dderbyn y sylw a chariad eithafol pan gyrhaeddodd Tyddyn Sgwarnog y noson gynt - er nad yw'n cwyno, mae'n fwy cyffyrddus y tu allan yn yr awyr iach nag wrth fwrdd y gegin ar yr aelwyd. Fel y daw stumog Pegi i arfer â llaeth a hufen pwdin barlys, daw hefyd i arfer gyda derbyn cariad a sylw ei nain a'i thaid.

Ond mae haen ychwanegol o arwyddocâd i bwdin barlys, gan mai dyma oedd hoff fwyd Jennie pan oedd yn blentyn. Mae'r unig foment teimladwy ac annwyl rhwng Pegi a Jennie yn portreadu'r ferch yn bwydo pwdin barlys i'w mam: gwrthdroad pendant ym mherthynas arferol rhiant a phlentyn. Ychwanegir haen ingol arall wrth ystyried mai dyma'r bwyd a arferai Elen wneud i Jennie pan oedd yn fach, a pherthynas y ddwy yn dda. Pwdin barlys ydi'r hyn sy'n clymu'r nain, y fam a'r ferch.

# Brithyll

Ym mhennod Davey Hoyle (tudalen 47) daw newid yn Pegi o fewn un bennod. Yn wir, ymddengys fod llygaid Davey yn gweld Pegi'n ferch ac yn ddynes yma, fel petai'r newid hwnnw yn digwydd o fewn un prynhawn. Daw hyn fel canlyniad o ddal a lladd y brithyll. Mae'r weithred o ladd y pysgodyn yn newid Pegi ym meddwl Davey, er, mae'n bosib mai yn ei ddychymyg yn unig mae'r newid yma'n digwydd. Wrth ddisgrifio Pegi'n taro'r brithyll er mwyn ei ladd, mae'r disgrifiad ohoni yn ddiamheuaeth o rywiol:-

> *"Roedd ei llygaid llwydion yn dynn ar ei phrae, ac wrth iddi godi'r coedyn uwch ei phen gallwn weld y blew tywyll dan ei cheseiliau drwy gotwm tenau ei ffrog. Ebychodd yn uchel, yn yddfol, wrth iddi daro'r pysgodyn, gan edrych fel dynes, rywsut, a'i chnawd gwyn yn crynu'n ysgafn wrth iddi chwifio'i harf."*
>
> *(tudalennau 52-3)*

Mae'r bennod hon am ddeffroad rhywiol a rhamantus Davey Hoyle. Daw'r brithyll yn symbol o'r deffroad hwn, a Davey yn cyfaddef iddo geisio ail-greu'r blas hwnnw droeon wedyn, a methu. Mae awgrym yma felly fod atgof blasau yn gryfach, ac weithiau'n fwy pleserus, na blasau go iawn.

# Ail Frecwast Pegi

Rysáit syml iawn a geir yma, sy'n adlewyrchu cyntefigrwydd archwaeth Pegi wrth iddi ddwyn bwyd o ardd Gwynfor Daniel. Mae'n ymddangos ar ddechrau'r bennod ei bod yn fodlon ei byd ac yn cael ei digoni ar bob lefel, a Gwynfor, felly, yn amau bechgyn drwg y pentref. Yn y penodau blaenorol, rydym yn sicr fod Pegi'n cael gofal cariadus a digon o fwyd yn ei chartref yn Nhyddyn Sgwarnog, a does dim i awgrymu'n wahanol yma. Ond pan fydd Gwynfor yn ei holi, mae Pegi'n dweud:-

> *"'Rydw i'n bwyta gymaint ag y galla i! A tydw i ddim yn llwgu, yn union. Ond, wyddoch chi, Mr Daniels, tydw i byth yn teimlo'n llawn chwaith.'"*
>
> *(tudalen 46)*

Dylid ystyried y gofal mae Pegi'n ei gymryd gyda'r bwyd y mae hi'n ei ddwyn. Nid yw'n llowcio'r cyfan yn ddifeddwl, ond yn torri'r tomato, yn dod a chig, ac yn cymryd deilen o fasil. Pe bai Pegi ar lwgu, tybed a fyddai'n trafferthu i berffeithio'r blas?

Gellir dadlau yma fod Pegi'n dwyn y bwyd am ei bod wedi cael ei llwgu yn y gorffennol, a bod ganddi ofn bod yn yr un sefyllfa eto. Efallai ei bod yn dal i deimlo'n ansicr am ei gofal ac yn methu ag ymddiried yn ei hamgylchiadau.

# Crempogau Ceirch

Er mai crempogau ceirch ydi'r rysáit ar ddechrau pennod Jennie Williams, mae yna gysylltiad emosiynol gyda'r pwdin barlys - dyna'r blas cysurlon, hyfryd sy'n cael ei ddisgrifio yma mewn manylder. Ond mae'r crempogau ceirch sy'n cael eu coginio gan Pegi i'w mam yn symbol amlwg o gariad Pegi, ac yn pwysleisio tlodi'r teulu - maent yn bryd rhad iawn.

Pan ddyweda Pegi ei bod am wneud crempogau i de, mae ymateb Jennie yn dangos mor anghynnes ydi'r berthynas rhwng y ddwy - mae Jennie'n cwyno am y bwyd ac am safon y cynhwysion a geir yn Siop Phyllip. Nid yw'n ddiolchgar o gwbl, yn enwedig o ystyried fod Pegi wedi bod yn gweithio drwy'r dydd ac yn dod adref ac yn gorfod dechrau coginio'n syth. Yn wir, cymaint yw cynddaredd Jennie ei bod yn ymateb yn eithafol:-

> *"Aeth ton o wylltineb trwydda i, a chodais y bowlen o'r bwrdd a'i thaflu yn erbyn y wal. Chwalodd yn deilchion, gan fwrw cawod o fellt gwyn pigog dros y gegin, a chytew trwchus, gwyn yn crio i lawr y mur."*
>
> *(tudalen 66)*

Mae'r ffaith nad yw Pegi'n ymateb i hyn - mae'n dechrau hwylio te eto - yn arwydd efallai nad yw digwyddiadau o'r fath yn anarferol yn y cartref hwn. Mae gwrthod y crempogau cyn iddynt gael eu coginio yn adlais o berthynas Pegi a Jennie - nid oes gobaith i Pegi blesio ei mam, ac mae ei hymgeision i ofalu am Jennie yn cael eu taflu o'r neilltu.

# Hufen Iâ Mafon

Cymeriad ymylol ydi Francis tan y bennod hon, a does dim awgrym bod yna unrhyw gysylltiad rhamantus wedi bod rhyngddo ef a Pegi. Mae'r hufen iâ y mae'n ei wneud iddi ar ôl angladd Jennie i fod i leddfu ei hanesmwythyd yn y gwres tanbaid, cynnig cysur iddi yn ei phrofedigaeth, ac, o bosib, creu argraff ar Pegi. Efallai hefyd mai ceisio lleddfu mymryn ar ei gydwybod ei hun mae Francis ar ôl yr angladd:-

> *"Gwnes fy ngorau i beidio â syllu arni, ond cael eu denu at Pegi wnâi fy llygaid wrth ei gweld yn eistedd rhwng ei nain a'i thaid. Edrychais arni yn y fynwent dros arch Jennie, a dychmygu cusanu ei gwefusau tenau.*
> *Yna euogrwydd, yn syth. Yng nghynhebrwng ei mam, a'r aer poeth, stormus yn gwneud i mi feddwl am ei hanadl cynnes."*
>
> *(tudalen 76)*

Gwylia Francis wrth i Pegi fwyta'r hufen iâ, a chael ei gyffroi gan ei mwynhad. Ond yn ogystal â hynny, mae'r hufen iâ yn gysur i deulu mewn profedigaeth, a'r ddelwedd o Pegi, Siôn ac Elen yn mwynhau bwyta ar ddiwrnod mor ddu yn ingol - pleserau syml iawn sy'n digoni pan fo bywyd yn gymhleth.

Dylid nodi bod defnydd go wahanol i hufen iâ ar ddiwedd y nofel, pan fo Huw yn dod o hyd i Pegi yn y siop ynghanol y nos, wedi bod yn gorfwyta hufen iâ. Y tro hwn, ymddengys fod yr holl siwgr yn cael effaith feddwol ar Pegi, sydd yn ei harwain at ddatgelu ei chyfrinach i Huw. Yn wahanol i'r bennod ramantus pan ddatblyga carwriaeth Francis a Pegi, ym mhennod Huw mae'r hufen iâ yn arwain at ansadrwydd perthynas y fam a'r mab, yn ogystal ag edifeirwch Pegi ei bod wedi datgelu ei chyfrinach.

## Porc ac Afalau Mewn Saws Seidr

Caiff y rysáit am y porc ac afalau ei ddefnyddio i bwysleisio agosatrwydd Pegi ac Annie, a'r gefnogaeth a gaiff Annie pan mae'n flinedig ac yn ddigalon.

Daw'n amlwg fod pwysau bywyd fel gwraig i barchedig a mam i bedwar o blant yn ormod i Annie, ac mae'n cyfaddef hyn i Pegi. Yn ogystal â gwarchod y plant dros nos, mae Pegi'n coginio pryd o fwyd i Annie a Jac. Awgryma hyn fod coginio yn ffordd i Pegi ddangos ei gofal a'i chariad. Efallai bod y ffaith fod y rysáit yn cynnwys seidr, ac felly fymryn yn fentrus i deuluoedd crefyddol ar y pryd, yn fodd i Pegi ddatgan ei bod hi'n gweld tu hwnt i rôl Annie fel gwraig gweinidog.

Fel canlyniad i'r ffaith fod Pegi'n gwarchod, daw un o'r adegau anwylaf a mwyaf cariadus rhwng Annie a Jac:-

> *"Arhosodd y ddau ohonon ni yn y gwely tan wedi un ar ddeg, yn caru a sgwrsio a chwerthin, ac wedyn i lawr â ni i'r gegin i gynhesu'r cinio a wnaed gan Pegi, oedd yn felys a hufennog, ac yn blasu fel rhyddhad."*
>
> *(tudalen 100)*

Hyd yn oed mewn cyfnod mor breifat rhwng Annie a Jac, mae presenoldeb a dylanwad Pegi'n glir, ac yn un positif iawn.

# Twrci Mewn Creision Ŷd

Yn union fel y daw bwyd i symboleiddio ymgais Pegi i gynnig cariad a gofal i Jennie ychydig benodau ynghynt, daw adlais o'r un sefyllfa yma gydag Isaac, tad Francis. Ymddengys ei gasineb tuag at Pegi yn aflan, yn enwedig a hithau'n ceisio gofalu amdano gan lanhau ei friwiau a choginio bwyd iddo.

Gwelwn Pegi yn mentro gyda'r arlwy mae'n ei weini - twrci mewn creision ŷd, rysait y cafodd o gylchgrawn. Gellid dadlau bod hyn yn arwyddocaol o fywyd Pegi yn y cyfnod yma, a'i bod yn gwneud ymgais i symud ymlaen a rhoi pellter rhwng ei hen fywyd, a'i hen flasau, a'i bywyd newydd. Fodd bynnag, mae Isaac Phyllip yn gwrthod y bwyd, gan ei ddisgrifio fel "bwyd tramor afiach." Pan mae Isaac yn tollti'r bwyd ar ei wely, mewn adlais o Jennie'n taflu'r cytew crempogau ar y wal, bydd amynedd Pegi yn dod i ben, ac mae'n gwylltio gyda'i thad-yng-nghyfraith am y tro cyntaf. Defnyddir y ddelwedd o sos coch fel gwaed yn treiddio drwy gotwm gwyn y dillad gwely i ddynodi'r frwydr rhwng y ddau.

Er bod y darllenydd yn falch i weld Pegi'n sefyll yn gadarn yn wyneb bwlio Isaac Phyllip, mae diwedd y bennod yn disgrifio Isaac yn gwylio'i ferch-yng-nghyfraith yn eistedd ar y grisiau, heb wybod ei bod hi'n cael ei gwylio:-

> *"Roedd hi'n bwyta. Na, yn sglaffio, yn gwthio siolced i'w cheg mor gyflym nes ei bod bron â thagu. Agorai becyn ar ôl pecyn, a châi drafferth i anadlu wrth lenwi'i cheg â'r holl siocled - y pecynnau sgleiniog fel tlysau yn yr hanner tywyllwch. Roedd fel petai ar lwgu."*
>
> *(tudalen 108)*

Nid yn unig mae'r ddelwedd yma'n dangos diffyg rheolaeth Pegi gyda bwyd, ond mae hefyd yn defnyddio bwyd fel arwydd o'r frwydr am bŵer rhwng Isaac a Pegi. Mae Isaac wedi ymwrthod â'r bwyd, a Pegi wedi ildio i demtasiwn ei harchwaeth - ac Isaac sy'n fuddugol ar ddiwedd y bennod hon.

# Caserol Cig Eidion a Pheli Toes Mwstard

Cymeriad ymylol yw Kenneth Davies, ac mae ei bresenoldeb yn y bennod hon yn ein hatgoffa o fywyd y tu allan i gymuned Bro Dysynni. Yn wir, ymddengys ar brydiau fel petai Kenneth wedi datgysylltu'n llwyr oddi wrth fro ei febyd, er enghraifft pan mae'n ymateb yn bendant iawn i syniad ei wraig y byddant yn medru ystyried symud i Lanegryn.

Defnyddir y caserol fel modd i Pegi ad-dalu'r holl ffafrau y gwnaeth Mai Davies, diweddar fam Kenneth, iddi. Mae'n dweud wrth Kenneth bod Mai wedi coginio'r union bryd yma iddi ar ôl iddi eni Huw. Felly, un noson, mae Pegi'n coginio'r pryd ac yn ei adael ar garreg y drws i Kenneth. Pan ddaw Kenneth o hyd iddo, mae'n ddig gyda'i ddiweddar fam am wario gymaint o'i arian ar gynhwysion i goginio i bobol y pentref, ond mae'r caserol yn gwneud iddo ddod i ddealltwriaeth ehangach o gymhellion ei fam:-

> *"Eisteddais ar garreg y drws yn ymyl y bowlen, a chrio i'r gwynt. Rhoddodd Jackie ei braich amdana i, a gwyddwn, yn sydyn, pam roedd Mam wedi coginio i gymaint o bobol, pam y treuliodd ei hamser a gwario ei phres ar bobol eraill. Am fod rhai blasau, fel rhai cyffyrddiadau, yn gysur ac yn gariad."*
>
> *(tudalen 120)*

# Jam Mwyar Duon

Ymddangosa Elen Pugh fel cymeriad cryf, cariadus, ac yn fam faeth rhagorol i Pegi pan fo Jennie yn yr ysbyty. Erbyn y bennod hon, mae hi a'i gŵr Siôn yn hen, ac mae atgofion yn rhan fawr o'r bennod.

Wrth iddi fwynhau'r jam mwyar duon ar fara cartref ei nain, gwelwn nad yw archwaeth Pegi am fwyd wedi pylu wrth iddi fynd yn hŷn. Yn ddiweddarach yn y bennod, cawn wybod bod peth anesmwythyd ym meddwl Pegi yn y cyfnod yma, a hithau'n ysu am blentyn arall. Eto, nid yw hynny wedi effeithio ar ei mwynhad o'r cinio syml yn Nhyddyn Sgwarnog - yn wir, efallai bod ei mwynhad o'r bwyd yn lleddfu rhywfaint ar ei phryder.

Cawn yma adlais o pan daflodd Jennie'r bowlen o gytew crempogau ar y wal, pan glywn ei bod wedi taflu jwg laeth ei mam ar y wal pan fu iddi ffraeo gyda'i rhieni. Yn union fel roedd gyda Pegi mae hyn yn symbol o wrthodiad Jennie o ofal a chariad ei theulu.

Dylid ystyried hefyd y rôl y mae jam mwyar duon yn chwarae ym mhennod Jennie Williams (tudalen 59.) Pan fydd Pegi'n bwydo pwdin barlys i Jennie, mae'n rhoi llond llwy o jam ynddo "yn belen waedlyd yn ei ganol". Mae hyn yn adlewyrchiad o'r ffordd mae Jennie wedi disgrifio ei salwch ei hun yn gynt yn y bennod:-

> "'Taswn i'n medru tynnu'r darn bach o 'mhen sy'n sâl allan ohona i, mi fyddwn i'n gwneud. Ond mae o'n lledaenu fel cancr, ac mae arna i ofn ei fod o wedi gwenwyno pob rhan ohona i rŵan.'"
>
> (tudalen 68)

Gellir dadlau bod y belen waedlyd yn symbol o'r rhan o feddwl Jennie sy'n llygru'r gweddill ohoni.

# Fflapjacs Ceirch a Hadau

Yn y bennod hon, mae'n amlwg bod teimladau Dr Thomas, meddyg Pegi, tuag at ei glaf bregus yn rhai cnawdol a chariadus. Mae rhywbeth yn afiach yn y ffordd mae'n cael ei ddenu at Pegi pan mae'n dod i'w weld, a hithau mewn trallod a digalondid.

Pan fydd Dr Thomas a Pegi'n mynd i ymweld ag Ysbyty Dinbych gyda'i gilydd, caiff y profiad ei liwio gan deimladau Dr Thomas. Mae'r ymweliad yn anodd i'r ddau ohonynt, ac yn annisgwyl o frawychus. Pan maen nhw'n oedi yn y Bala ar y ffordd adref, maen nhw'n bwyta fflapjacs ceirch a hadau a wnaed gan wraig Dr Thomas. Mae'r bwyd yn bresenoldeb sy'n atgoffa'r meddyg o'i ddyletswydd tuag at ei wraig - hyd yn oed pan mae Pegi a Dr Thomas ar eu pennau ei hunain, caiff y ddau eu hatgoffa fod Dr Thomas yn briod.

Ymddengys nad yw Pegi'n sylweddoli fod gan Dr Thomas deimladau tuag ati o gwbl. Mae'n ymgolli'n llwyr yn y fflapjacs:-

> *"Cymerodd Pegi un o'r sgwariau melys o'r pecyn, gan ei fyseddu'n ofalus fel petai o'n drysor - sgwâr trioglyd yn llawn ceirch a hadau, ac ambell gneuen almwn yn ei fritho. Brathodd y pwdin yn anifeilaidd, a'i gnoi'n araf."*
>
> *(tudalen 148)*

Gellid dadlau bod Pegi'n defnyddio'r bwyd i anghofio'r profiad trawmatig o ymweld ag Ysbyty Dinbych.

# Bisgedi Lafant a Dant y Llew

Mae Menna Arthur yn gymeriad ymylol arall yn y nofel, ond mae ei hargraff hi o Pegi yn gwbl wahanol i'r cymeriad y mae'r darllenydd wedi dod i'w hadnabod.

Ar ôl swper yn nhŷ Menna, gweinir bisgedi lafant a dant y llew - bwyd delicet, annhebyg i'r bwyd cartref sy'n arferol i Pegi.

Mae gan Pegi gysylltiad emosiynol gyda'r bisgedi lafant a dant y llew:-

> *"'Roedd 'na lafant yn tyfu yng ngardd fy nain erstalwm. Byddai hi'n rhoi peth o dan fy ngobennydd i godi'r arogl cysglyd hyfryd yna.' Llyncodd, fel petai hi'n trio cael gwared ar beth bynnag oedd yn ei phen."*
>
> *(tudalen 156)*

Gellir dadlau bod cynhwysion y bisgedi'n symbolaidd yma - y cysylltiad rhwng y lafant ac Elen Pugh, a'r dant y llew, yn chwyn sydd, am unwaith, yn ddefnyddiol ac yn ehangu blas y bisgedi. Efallai fod hyn yn cyfateb i Pegi - yn blentyn, nid oedd hi'n cael ei gwerthfawrogi o gwbl, gan deimlo'n gwbl ddiwerth, ond cafodd ei thrawsnewid wrth iddi ddod i Dyddyn Sgwarnog, y cartref a'r lafant yn tyfu yn yr ardd.

# Bisgedi Ceirch

Mae'r bisgedi ceirch yn y bennod hon yn brawf fod Huw wedi etifeddu arfer ei fam i gynnig bwyd fel cysur. A Pegi i ffwrdd ym Mhwllheli, yn ceisio gwella ar ôl pwl o iselder, mae Huw yn cyfaddef i'w dad ei fod o'n ymwybodol o gyflwr meddyliol Pegi - yn wir, mae o'n gwybod mwy na Francis. Mae'n dangos y pecynnau gweigion sydd wedi eu cuddio gan Pegi - tystiolaeth o'i gorfwyta achlysurol. Ond yr effaith ar Huw yw prif bryder Francis ar y pwynt yma:-

> *"...er mor frawychus oedd y ddelwedd (o Pegi'n gorfwyta), doedd hi'n ddim i'w chymharu â meddwl am Huw, yn fachgen tal, golygus, yn feistr ar ei emosiynau, yn chwilio corneli tywyll ei gartref am dystiolaeth o wallgofrwydd ei fam, ac yn dod o hyd iddo ar ffurf pecynnau gwag ac arogleuon siocled wedi'i sglaffio."*
>
> *(tudalen 167)*

Fel y gwnaeth Pegi droeon, ceisia Huw gynnig cysur i'w fam drwy goginio - mae'n paratoi bisgedi ceirch iddi. Yn wahanol i ymateb Jennie, dangosa Pegi fwynhad a gwerthfawrogiad, ond mae'r tensiwn rhwng Pegi a Francis ar ddiwedd y bennod yn dynodi gwir deimladau Pegi.

# Ysgytlaeth Menyn Cnau a Mêl

Mae rysáit yr ysgytlaeth yn ymddangos ym mhennod Merfyn Thomas, sy'n bennod sy'n cyflwyno syniad gwbl newydd i'r nofel - efallai nad yw priodas Pegi a Francis mor berffaith ag y mae'n ymddangos. Am nad ydym yn clywed Pegi yn lleisio ei disgrifiad ei hun o'i phriodas, does dim i ddweud sut mae'n teimlo mewn gwirionedd. Mewn penodau blaenorol gan Francis, Annie, Elen a Dr Thomas, ymddengys fod perthynas Pegi a Francis yn hapus, er bod ei iselder achlysurol yn achosi pryder i'w gŵr. Ceir darlun gwahanol gan Merfyn.

Mae'r ysgytlaeth yn cynrychioli rhyddhad rhywiol a rhamantus. Wrth i Merfyn ddod i adnabod Pegi, mae'r ffaith ei fod yn dewis yfed coffi yn hytrach na blasu'r ysgytlaeth y mae hi'n ymfalchïo ynddynt yn mynd yn arwyddocaol:-

> *"Byddai Pegi'n tynnu fy nghoes am mai dim ond coffi fyddwn i'n ei yfed. Doedd hi ddim yn gwybod 'mod i'n ysu am gael trio un o'r diodydd oer, lliwgar a melys, ond bod gen i ormod o embaras ei gweld hi'n gwylio fy ymateb wrth brofi blas newydd."*
>
> *(tudalennau 183-4)*

Mae'r cymariaethau rhywiol gyda blasu'r ysgytlaeth yn dod yn gwbl glir pan benderfyna Merfyn ildio i demtasiwn ac yfed ysgytlaeth. Mae awyrgylch nwydus, rhywiol i ddisgrifiad Merfyn o'r profiad:-

> *"Roedd o gystal, na, roedd o'n well nag yr oeddwn i wedi'i freuddwydio. Yn blasu'n gysurlon, gyfarwydd, ac eto'n ddigon oer a melys i synnu 'nhafod. Blas yr haf, blas mwynhad.*
> *Blas Pegi."*
>
> *(tudalen 185)*

Dylid ystyried hefyd y cyffelybiaethau rhwng rôl y blasau yn y bennod hon a phennod gyntaf Francis Phyllip (tudalen 71.) Mae Francis a Merfyn ill dau yn dod i gysylltiad rhamantus gyda Pegi drwy felysion oer sy'n lleddfu anesmwythyd mewn tywydd poeth: mae'r symbolaeth rywiol yn amlwg yma. Ond ym mhennod Francis, daw storm i leddfu'r tywydd poeth, a golyga ei briodas â Pegi bod y tensiwn rhywiol yn cael ei leddfu hefyd. Nid oes canlyniad tebyg i bennod Merfyn.

## Cyrri Llanegryn

Mae'r rysáit am gyrri yn sefyll allan mewn nofel sy'n dibynnu'n gyffredinol ar ryseitiau am fwyd cartref sy'n defnyddio cynhwysion a fyddai wedi bod ar gael yng nghefn gwlad Cymru yng nghyfnod y nofel. Yn wir, gellir dadlau bod y bennod gyfan yn annisgwyl. Mae Pegi a Francis yn mabwysiadu mab o Lerpwl, a Pegi, yn ei hanwybodaeth, yn coginio cyrri i'r bychan gan feddwl mai dyna'r math o fwyd y byddai wedi arfer ag o.

Ond Siw sy'n cael mwynhad ac adfywiad o'r bwyd, nid Jonathan. Mae'r cyfuniad o gael pwrpas newydd - dysgu Cymraeg i Jonathan - a blasu rhywbeth hollol anghyfarwydd yn gysur mawr iddi:-

> *"Dwn i ddim beth oedd yn gyfrifol. Ai'r cyrri, yn flas ac arogl newydd, â ddaeth â dadeni i'm henaid clwyfus, neu Jonathan, y bachgen bach a wirionodd efo fi yr un fath ag y gwnes i efo fo..."*
>
> *(tudalen 203)*

Wrth gwrs, ni fyddai Siw wedi cael blasu'r cyrri pe na bai Jonathan wedi dod i Lanegryn, felly mae'r ffaith ei bod yn dod at ei hun yn ganlyniad i ddyfodiad Jonathan. Diddorol yw nodi bod Siw yn dewis rhoi peth o'r clod am ei gwella i'r bwyd - dyma eto esiampl o fwyd fel cysur, fel petai ganddo elfennau sydd bron yn hudol.

Dylid ystyried symbolaeth yn ymateb Jonathan i fwyd. Nid yw'n mwynhau'r cyrri, ond yn ffafrio bwyd cartref - *"...yr union betha fyddwch chi'n coginio fel arfer!"* fel dyweda Siw. Mae hyn yn cyfateb i'r ffaith fod Jonathan yn ffitio mor berffaith i gymuned Llanegryn - mae ei chwaethau a'i anghenion yr un fath â rhai ei gyd-bentrefwyr.

## Tarten Eirin

Cawn deimlad yn y bennod hon fod Huw wedi datgysylltu oddi wrth ei wreiddiau - mae wedi sefydlu bywyd iddo'i hun ym Manceinion gyda Maria, ei gariad newydd. Ar ei hymweliad cyntaf hi i Lanegryn, sylweddola Huw, wrth weld y ffordd mae Pegi'n syllu arni, bod ganddi anhwylder bwyta a'i bod yn beryglus o denau.

Y darten eirin yw'r cam olaf yn nadrithiad Huw. Mae ymateb Maria i'r pwdin melys yn ddigon i'w atgoffa o batrymau bwyta ei fam pan roedd o'n fachgen.

Er nad oes cystadlu na thensiwn rhwng Huw a Jonathan, gellir dadlau ei fod yn arwyddocaol fod y pwdin a goginiwyd gan ei frawd mabwysiedig wedi dadrithio Huw, a gwneud iddo gwestiynu'r un sy'n ei wneud yn hapus: Maria. Mae'n hawdd i ddarllenydd ddeall pam fod Huw wedi gadael Llanegryn, a byddai'n hawdd deall petai'n teimlo wedi ei ynysu o'r teulu newydd yma. Efallai fod hyn yn rheswm arall pam fod Huw yn cadw i ffwrdd o Lanegryn - mae'r ymweliad â'r pentref wedi gwenwyno'r ddelwedd oedd ganddo o'i gariad.

Gorffenna'r bennod gyda delwedd ddigalon ond gobeithiol - mae Huw yn cysuro Maria, sydd newydd gael gwared ar y darten eirin:-

> *"Ym mowlen y tŷ bach, roedd piws y darten eirin fel clais yn erbyn y porslen gwyn lle chwydodd hi ei phwdin."*
>
> *(tudalen 222)*

Dyma barhad o'r ddelwedd o gysylltu bwyd gyda delweddau o waed neu berfeddion (gweler y jam fel *"pelen waedlyd"* ym mhwdin barlys Jennie, a'r "*saws coch yn treiddio drwy'r gwlân"* ar goesau clwyfedig Isaac.)

# Tost Nadolig

Un o'r perthnasoedd agosaf a mwyaf ingol yn y nofel yw'r cyfeillgarwch rhwng Pegi ac Annie. Mae ar ei gryfaf yma, pan fo Annie'n dioddef o gancr ac yn cael mwy o gysur gan ei ffrind gorau nag y mae'n cael gan ei gŵr.

Mae'r tost Nadolig yn rhan o ofal Pegi tuag at Annie. Er mwyn i Annie gael cyfle i orffwys, mae Pegi'n trefnu digwyddiad ar gyfer teuluoedd y ddwy ar brynhawn Nadolig.

Er ein bod yn cael cipolwg ar arfer Pegi i fwyta pan mae'n poeni yn y bennod hon - ar ôl iddi glywed am salwch Annie, mae'n bwyta *"bisged ar ôl bisged ar ôl bisged, wedi'u gwthio i'w cheg yn gyfan"* - ymddangosa Pegi'n gryf drwy weddill y bennod, yn cynnig cefnogaeth ddihafal i Annie.

Yng nghanol ei thriniaeth, a hithau'n flinedig ac yn sâl, llwydda Annie i fwynhau'r tost Nadolig a baratowyd iddi gan Pegi a Siw. Er nad oes arni archwaeth bwyd, dyma fodd amgen iddi fwynhau'r Nadolig:-

> *"Sinamon a mêl a menyn, a'r tost yn crensian rhwng fy nannedd."*
>
> *(tudalen 238)*

Unwaith eto, mae Pegi wedi defnyddio bwyd i gysuro rhywun mewn trallod.

# Popcorn Siocled

Mae Siôn ar ei wyliau gyda'i nain a'i daid, Pegi a Francis, yn y siop yn Llanegryn, ac mae'n mwynhau cael gweithio yn y siop a cherdded llwybrau'r pentref. Cawn weld Pegi hiraethus yn dangos Tyddyn Sgwarnog i Siôn.

Mae Siôn yn mwynhau'r popcorn yn y sinema, ond yn meddwl bod y popcorn microdon y caiff gan ei fam yn ddi-flas. Llwydda Pegi i newid ei feddwl, sy'n fuddugoliaeth i'r hen ffasiwn dros y modern - coginia Pegi'r popcorn ar y stof, ac nid mewn microdon.

Yn niwedd y bennod, ceir sgwrs ddadlennol rhwng Siôn a Pegi. Yn sgil ei gweld yn bwyta er ei bod hi'n llawn, am ei bod hi'n hoff o'r blas, dyweda Siôn:-

> *"'Rydach chi fel plentyn, 'blaw eich bod chi'n hen.'*
> *Llyncodd Nain ei chegaid, a syllu arna i. 'Dwi'n dal i deimlo 'run fath ag yr oeddwn i pan o'n i'n hogan fach, wsti.'*
> *'Dwi'n falch,' atebais, cyn cymryd cegaid arall o bopcorn. Pan edrychais i fyny, roedd Nain yn gwenu arna i, a'r mymryn lleiaf o siocled yn staen ar ochr ei cheg."*
>
> *(tudalen 247)*

Cawn ein hatgoffa yma o blentyndod anodd Pegi, a'r blynyddoedd o esgeulustod a diffyg bwyd. Efallai mai ail-greu plentyndod na chafodd hi mae Pegi yma gyda'i ŵyr. Mae'r ddelwedd yn un annwyl ac atyniadol - hen wraig sy'n gallu uniaethu gyda Siôn, ac ymdebygu i blentyn.

# Affogato

Dyma un o'r penodau mwyaf emosiynol a theimladwy yn y nofel, gan ei fod yn adrodd hanes marwolaeth Annie. Yn ogystal â hynny, mae'n portreadu datblygiad y pentref a'r cymeriadau yn symud ymlaen - Francis a Pegi'n ymddeol ac yn symud i Lanrafon, a Jonathan yn troi'r siop yn gaffi. Mae teimlad o'r rhod yn troi, a'r to hŷn yn rhoi cyfle i genhedlaeth newydd gymryd eu lle.

Mae teimlad chwerw felys i brofiad Jac o wylio'i wraig yn trio affogato yn noson agoriadol y caffi newydd:-

> *"Gwelais ei llwnc yn llithro tuag at ei gwegil wrth iddi lyncu'n araf a hamddenol. Eiliadau byrion o ymgolli yn y pleser o flasu rhywbeth newydd, rhywbeth hyfryd, a gwelais Annie yn gwneud ystumiau dynes ifanc mewn corff hen wraig. Lwyddais i erioed i wneud iddi ebychu fel'na."*
>
> *(tudalen 260)*

Mae hyn yn ategu'r cysylltiad rhwng bwyd a rhywioldeb a geir drwy'r nofel, ac yn cadarnhau, unwaith eto, mai cyfeillgarwch yn hytrach na rhamant sydd rhwng Jac ac Annie.

Wedi cael blas ar yr affogato, sy'n fwyd modern, ffasiynol, mae Annie'n marw yn ei chwsg. Gellir dadansoddi hyn fel marwolaeth y genhedlaeth - gyda'r siop wedi cau, chwaeth pobol am fwyd yn newid, ac Annie'n marw, mae Llanegryn yn lle gwahanol iawn i'r hyn oedd o ar ddechrau'r nofel.

Awgryma ymateb Jonathan at farwolaeth Annie fod ei agweddau tuag at fwyd yn debyg iawn i rai Pegi. Mae'n gwneud affogato yr un i Pegi, Francis a Jac yn y caffi, gan eu hatgoffa fod Annie wedi cael blas arno'r noson gynt. Dyma esiampl arall o gynnig cysur drwy roddi bwyd.

Rhoddir pwyslais arbennig ar bwysigrwydd y bwyd gan Pegi, hefyd:-

> *"'Dyma'r peth olaf iddi ei fwyta,' meddai Pegi ar ôl gwagio'i phowlen. Edrychais draw arni, ond roedd ei llygaid wedi'u hoelio ar ddawns y dail ar y stryd tu allan. 'Mae o'n flas da i gael yn dy geg wrth fynd i'r nefoedd, yn tydi?'"*
>
> *(tudalen 265)*

Caiff y cysylltiad yma rhwng bwyd a'r bywyd tragwyddol ei wneud eto ar ddiwedd y nofel, pan fydd Pegi'n dychmygu'r bywyd nesaf fel picnic ar y comin.

## Mins Peis Hawdd

Yn un o'r penodau blaenorol, caiff Pegi ei phortreadu fel rhywun sydd wedi achub y Nadolig i Annie pan roedd hi'n wan ac yn sâl. Yn y bennod hon, mae'n Nadolig eto, ond Pegi sydd mewn gwendid y tro hwn. Y mae'n gwella ar ôl cael strôc, ac ymddengys fod ei salwch wedi torri ar ei hysbryd, yn ogystal â'i harchwaeth am fwyd:-

> *"Am y tro cyntaf erioed, roedd hi'n bwyta heb awch, a doeddwn i ddim wedi sylweddoli cyn hynny gymaint o ran ohoni oedd y bwyd a ddiflannai i'w cheg. Gynt byddai'n mwynhau pob cegaid, yn rhwygo pob tamaid ag awch anifeilaidd, fel plentyn bach oedd heb fwyta ers hydoedd. Rŵan doedd hi ddim fel petai'n blasu o gwbl."*
>
> *(tudalen 277)*

Wrth golli ei hawch am fwyd, mae Pegi wedi colli rhan annatod ohoni hi ei hun.

Mae'r bennod hon yn hanner adrodd yr hanes am Pegi'n datgelu ei chyfrinach wrth Huw pan roedd o'n fachgen, ac mae'r gwahaniaeth rhwng Pegi'r adeg honno a'r Pegi cyfredol yn sylweddol. Wrth weld ei fam oedrannus yn ymdrechu'n ofer i fwyta mins pei, mae Huw yn ei bwydo, mewn eiliad sy'n anarferol o addfwyn rhwng y ddau. Mae'n adlais o pan fwydodd Pegi ei mam hithau, Jennie, ac mae'r ddau ddigwyddiad yma yn rhagflaenu marwolaeth y rhai sy'n cael eu bwydo.

## Bara

Mae bara'n cael ei grybwyll droeon yn y nofel, ond nid yw'n cael blaenoriaeth tan y diwedd, pan ddaw Jonathan o hyd i dorth berffaith a bobwyd gan ei fam y diwrnod cyn iddi farw. Mae arwyddocâd i hyn: ym mhennod Elen Pugh, sy'n digwydd flynyddoedd ynghynt, cawn wybod:-

> *"'Dyna fy uchelgais i,' cyhoeddodd Pegi, gan graffu ar y dorth. 'Gwneud y dorth berffaith. Mi fydda i'n hapus wedyn.'"*
>
> *(tudalennau 125-6)*

Ymddengys i Pegi wireddu ei huchelgais yn y diwedd.

Gwelir nifer o gyfeiriadau eraill at fara yn y nofel hefyd. Pan ddychwela Jennie o Ysbyty Dinbych, mae torth yn y tŷ yn disgwyl amdanynt, a Pegi'n cyfaddef nad hi wnaeth ei phobi. Dan densiwn y sefyllfa chwithig, mae Pegi'n bwyta'r bara'n anifeilaidd ac yn ffieiddio'i mam (tudalen 62). Tro Pegi at fara eto ym mhennod Elen Pugh, a hithau'n pryderu am ei hanallu i gael ail blentyn (tudalen 125). Pan gaiff Pegi freuddwyd hyfryd am bicnic gyda'i hen ffrindiau ar y comin, mae'n dweud wrth Jonathan na fydd yn dychwelyd o'r freuddwyd y tro nesaf, gan weld y picnic fel rhyw fath o fywyd tragwyddol hyfryd. Gellid dadlau mai paratoi ar gyfer y picnic ar y comin oedd Pegi pan bobodd ei thorth berffaith ar ei diwrnod olaf.

## Cwestiynau

- Pa fwydydd sy'n drobwyntiau yn y nofel?
- Pa effaith caiff y ryseitiau ar y stori?
- Ar y cyfan, ydych chi'n teimlo fod gan Pegi berthynas negyddol neu bositif gyda bwyd?
- Yn eich barn chi, pam fod bara'n dod yn bwysig i'r nofel ar y diwedd un?
- Mae pwdin barlys yn cael ei ddefnyddio droeon yn y nofel. Beth yw effaith hyn?

# Prif Themâu

## Bwyd

Wrth ddechrau pob pennod gyda rysáit, rhoir bwyd a bwyta yn ganolbwynt i'r nofel a datblygiad y stori. Yn blentyn ifanc, mae Pegi'n cael ei llwgu a'i hamddifadu o gysur bwyd gan ei mam, a dyma ddechrau obsesiwn gydol oes gyda bwyd, a brwydr hir yn erbyn anhwylder bwyta. Defnyddir bwyd i bwysleisio gwahanol emosiynau neu natur perthnasoedd rhwng y cymeriadau.

Dyma ambell enghraifft o'r modd y mae bwyd yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu'r stori.

- **Mai Davies a'r gacen sinsir** - Ymgais i gysuro Pegi mewn cyfnod o drallod enbyd yw'r gacen sinsir, ac yn ffordd o geisio helpu mewn sefyllfa lle nad oes llawer mwy y gellir ei wneud. Amlygir natur ofalgar, famol Mai Davies, a'i hiraeth am ymateb ei diweddar ŵr i'w choginio ("Roeddwn i'n ei garu o, ac roedd o'n caru fy mwyd i.") Gwrthgyferbynnir cacen sinsir flasus a chyfoethog Mai Davies â'r cawl llygoden fawr y cafodd Pegi gan ei mam. Mae derbyn y gacen gan Mai Davies yn drobwynt ym mywyd Pegi - mae hi'n dechrau derbyn cymorth, gofal a chariad ar ôl bywyd o gael ei hesgeuluso.

- **Isaac Phyllip a'r twrci** - Gwelir yma enghraifft o fwyd yn cael ei ddefnyddio fel arf mewn brwydr am bŵer, ac yn wahanol i nifer o'r penodau eraill, nid oes unrhyw bleser mewn bwyta a blasu. Wrth drio gofalu am ei thad-yng-nghyfraith, mae Pegi wedi paratoi bwyd iddo, ond teimla Isaac Phylip wedi ei dramgwyddo ac fel petai'n cael ei fabïo ganddi, ac mae'n ymateb yn llawn gwenwyn. Wrth dollti'r bwyd dros ei wely, mae'n gwrthod caredigrwydd Pegi yn ogystal â'i safle fel gwraig y tŷ.

- **Merfyn Thomas a'r ysgytlaeth** - Ceir yma bwyslais ar y gwahaniaeth rhwng cyflasau - chwerwder y coffi mae Merfyn Thomas yn ei yfed yng nghaffi Pegi, a melystra'r ysgytlaeth y mae'n ysu i'w flasu yn ei le. Daw'r ysgytlaeth yn symbol o'r berthynas mae Merfyn yn chwennych, a'r rhyddid i fod yn gwbl onest ac agored gyda Pegi ynglŷn â'r hyn y mae eisiau ei gael. Cysylltir yr ysgytlaeth gyda thensiwn rhywiol. ("Llifodd deigryn o anwedd i lawr ochr y gwydryn, yn union fel y dafnau chwys y bûm i'n eu gwylio ar wddf Pegi drwy'r haf.")

Mae pob rysáit wedi bod yn rhan o fywyd Pegi, ond pam dewis cofnodi ei stori drwy wahanol fwydydd? Ystyriwch y canlynol:

- Mae bwyd yn rhan o esgeulustod Jennie tuag at ei merch yn ystod plentyndod Pegi - Ym mhennod Mai Davies, cawn glywed am y cawl llygoden fawr a wnaed gan Jennie, yn ogystal â'r ffaith nad oedd

Pegi wedi bwyta ers amser maith pan aeth i ymweld â Mai - "Mae'n rhaid fod y fechan ar lwgu." (tudalen 21)

- Mae'r rhai cyntaf i wirioneddol ofalu am Pegi - Mai Davies, ac Elen a Siôn Pugh, yn dangos eu cariad trwy gynnig bwyd. Mae Pegi yn derbyn y bwyd/gofal mewn modd gorawyddus, gan fynd yn sâl ar ôl bwyta gormod o bwdin barlys.
- Mae diffyg gallu Pegi i deimlo'n llawn (gweler pennod Gwynfor Daniel) yn dangos mai peth emosiynol yw bwyd i Pegi, a bod ansicrwydd yn gwneud iddi fod eisiau bwyd. Ategir hyn ym mhennod Isaac Phyllip.
- Mae Pegi, yn ei thro, yn dangos ei chariad hithau drwy roi bwyd, fel y gwneir i Annie, Kenneth, Jonathan a Siôn.
- Mae bywyd carwriaethol Pegi ynghlwm â bwyd. Mae teimlad cyntefig am ddal, coginio a rhostio'r pysgodyn yng nghwmni Davey. Mae Francis yn lleddfu'r teimlad anghysurus yn y gwres cyn storm wrth wneud hufen iâ iddi. Mae hithau, wedyn, yn ceisio lleddfu chwant Merfyn drwy weini ysgytlaeth iddo.
- Yn ail bennod Huw (tudalen 266), mae Huw yn bwydo Pegi pan mae hi'n sâl. Mae hyn yn tanlinellu gwendid corfforol Pegi, a'r ffaith fod rôl y rhiant a'r plentyn wedi ei wyrdroi.
- Yn y penodau sy'n ymdrin â chymeriadau sydd â pherthnasoedd cymhleth neu anodd â Pegi, mae'r berthynas â bwyd yn gymhleth neu'n amhleserus. (Gweler penodau Isaac, Jennie a Huw.)

# Afiechyd Meddwl

Mae afiechyd meddwl a'i sgil-effeithiau yn thema sy'n rhedeg drwy gydol y stori, a'r posibilrwydd y bydd Pegi yn etifeddu salwch a phroblemau ei mam yn boendod meddwl iddi am ran helaeth o'i hoes. Cysylltir afiechyd meddwl gyda gwahanol agweddau tuag at fwyd, gan ddychwelyd droeon at y gwrthgyferbynnu rhwng newyn a gorfwyta.

- Jennie - Mae afiechyd meddwl Jennie yn amlwg ac yn eithafol, a'r disgrifiadau ohoni'n anwybyddu ei merch ac yn rhoi'r llygoden fawr yn y cawl yn esiamplau cignoeth a chreulon o ganlyniad ei hafiechyd. Nid yw Jennie'n cael unrhyw bleser o fwyd na blasau tan i Pegi goginio pwdin barlys iddi, fel yr arferai ei mam wneud pan roedd hi'n blentyn, ond nid yw'n ymddangos fel bod Jennie'n gwybod sut i ymdopi gyda chysur y blas: "Roedd o'n arteithiol o hyfryd. Yn bob dim a fu'n flasus i mi, yn bob dim roeddwn i wedi'i golli."

- Pegi - Yn wahanol i Jennie, cawn weld gwreiddiau problemau iechyd meddwl, ac felly teimla'r darllenydd yn fwy cydymdeimladol. Yn wir, bron nad ydi problemau Pegi yn ddatblygiad naturiol sydd i'w ddisgwyl ar ôl cymhlethdodau ei phlentyndod. Gellir dadlau bod arwyddion o'i diffyg rheolaeth mewn cyd-destun bwyta yn gynnar yn ei bywyd, pan mae'n dwyn llysiau o ardd Gwynfor

Daniels. ("...tydw i ddim yn llwgu, yn union. Ond wyddoch chi, Mr Daniels, tydw i byth yn teimlo'n llawn chwaith.") Ond nid yw afiechyd meddwl Pegi yn cyrraedd ei uchafbwynt tan ar ôl iddi gael Huw, a chawn wybod am ei phatrwm o orfwyta a llwgu ei hun am yn ail.

- Menna Arthur - Er nad yw Menna ei hun yn dioddef o salwch meddwl, mae ei hagwedd tuag at Pegi pan ddaw i wybod mai anhwylder seicolegol sydd yn ei phoeni yn adrodd cyfrolau am agwedd cymdeithas tuag at afiechyd meddwl. Mae ei hedmygedd o Pegi'n troi'n ofn wrth iddi gofio am wallgofddyn o'i phlentyndod ("Bysedd main oedd gan hwnnw hefyd, yn union fel rhai Margaret. Yn estyn am bobol nad oedd yno.")

# Etifeddiaeth

Mae etifeddiaeth yn thema sydd ynghlwm â'r thema uchod - yn aml, ofn etifeddu afiechyd meddwl fydd Pegi, neu ofn ei drosglwyddo i genhedlaeth arall.

- Pegi - Hyd yn oed a hithau'n ferch ifanc, mae Pegi'n dangos arwyddion o fod yn ymwybodol o'i hetifeddiaeth deuluol. Mae'n dweud wrth Davey Hoyle, " 'Waeth i ti ddod i arfer efo beth wyt ti... Fedri di ddim cael gwared ar yr hyn sydd yn dy waed di.'"
  Flynyddoedd yn ddiweddarach, mae'r cwestiwn yn amlwg yn ei phoeni pan mae'n gofyn i Dr Thomas: "'Yr hyn ddigwyddodd i Mam... Ydi o'n rhywbeth mae rhywun yn medru ei etifeddu?'"
  Ar ddiwedd ei bywyd, daw Pegi i gasgliad boddhaol ar y cwestiwn yma: "'Tydw i ddim wedi troi i fod fel Mam.'"

# Cyfeillgarwch

Mae cyfeillgarwch platonig yn un o gerrig sail y nofel, ac yn cynnig perthynas wahanol i'r perthnasoedd cariadus, priodasol.

- Annie a Pegi - Dyma gyfeillgarwch sy'n datblygu braidd yn annisgwyl. Cofir i Annie fod yn dyst i Pegi'n cael ei hebrwng i gartref ei nain a'i thaid pan oedd yn blentyn. Yn wir, caiff darllenydd yr argraff bod Annie wedi bod yn unig iawn cyn dod yn gyfaill i Pegi, heb ffrindiau agos o gwbl yn y pentref. Datblyga'r berthynas i ffasiwn raddau fel bod Annie'n dweud, "Dros y misoedd nesaf, croesodd Pegi'r trothwy o fod yn ffrind mynwesol i fod yn chwaer." (tudalen 229) Dyma ddynodi agosatrwydd a chariad rhwng y ddwy.

# Cymdeithas

Ceir darlun clir o gymdeithas yma, a'r newid o fewn cymuned bentrefol Gymreig o fewn cyfnod y nofel.

- **Llanegryn** - portreadir Llanegryn fel pentref clòs, a'r trigolion yn gefnogol o'i gilydd. Pan fydd Jennie yn gorfod mynd i Ysbyty Dinbych, mae Mai Davies a Jac Vaughan yn sicrhau bod Pegi'n cael gofal. Mae Mai Davies, drwy bobi bwyd i drigolion anghenus y pentref, yn atgyfnerthu'r ymdeimlad o gymuned yn y pentref. Yn ddiweddarach, pan symuda Jonathan i fyw i Lanegryn, nid oes unrhyw sôn ei fod wedi dioddef hiliaeth - caiff ei dderbyn yn llwyr gan y pentref.

- **Tywyn** - er mai tref fechan yw Tywyn, mae iddi awyrgylch go wahanol i Lanegryn yn 'Blasu'. Pan fydd Pegi yn agor y caffi ar y traeth yn Nhywyn, mae ymdeimlad o anhapusrwydd ac anniddigrwydd yn ei bywyd. Yn yr un ffordd, bydd awgrymiadau o ansadrwydd meddyliol ar yr achlysuron eraill pan aiff Pegi i Dywyn - pan fydd yn ymweld â Dr Thomas, a phan fydd yn mynd i gael trin ei gwallt yng nghwmni Huw.

- **Lleoliadau eraill** - Llanegryn yw canolbwynt bywyd Pegi ac mae'n symbol o sefydlogrwydd. Pan fydd y cymeriadau'n mentro o'r fro, mae'n digwydd o ganlyniad i amgylchiadau anhapus - Pegi yn mynd i Bwllheli pan mae'n ddigalon, er enghraifft, neu Annie yn gorfod mynd i Aberystwyth i dderbyn triniaeth feddygol.

## Cwestiynau

- Pa thema yw'r pwysicaf yn eich barn chi?
- Chwiliwch am ddyfyniadau am yr is themâu yma: serch; diffyg cyfathrebu; obsesiwn; tlodi; rhagfarn; euogrwydd.
- A allwch feddwl am themâu eraill yn y nofel?
- Trafodwch ddiffyg adnabyddiaeth pobol o'i gilydd fel thema arall o fewn y nofel.
- Ai afiechyd meddwl Pegi sy'n arwain at ei hobsesiwn â bwyd, ynteu ai ei hobsesiwn â bwyd sy'n arwain at ei hafiechyd meddwl?

# Arddull a Chrefft

### Strwythur y nofel

Caiff y penodau yn 'Blasu' eu lleisio gan wahanol gymeriadau, gan adael dim ond dwy bennod i Pegi, y prif gymeriad. Felly mae'r darllenydd yn dod i adnabod Pegi drwy lygaid trawstoriad o wahanol gymeriadau. Weithiau, bydd dehongliad o gymeriad Pegi yn gwrthgyferbynnu o ganlyniad i hyn, gan arwain y darllenydd i deimlo nad oedd unrhyw un yn ei hadnabod yn iawn.

### Adleisiau yn y nofel

Mae rhai patrymau yn cael eu hailadrodd yn y nofel, gan ychwanegu at y thema o adlais dros wahanol genedlaethau.

- Ymddengys plentyndod fel amser eithaf pryderus ac anodd. Caiff Pegi blentyndod anodd, mae gan Huw berthynas gymhleth gyda'i fam, a chaiff Jonathan ddechrau anodd. Mae'r tri chymeriad yma'n brwydro i drechu eu problemau a'u hamgylchiadau cychwynnol.
- Presenoldeb dŵr pan fo bywyd Pegi yn gythryblus. Mae ei chartref cyntaf, Glanrafon, yn dŷ bychan yn ymyl afon y pentref. Caiff brofiad cariadus gyda Davey Hoyle ar lan yr afon, pan gaiff y darllenydd weld rhai o nodweddion digalondid Pegi am y tro cyntaf. Mae anhapusrwydd Pegi yn amlwg ym mhennod Merfyn Thomas, pan fydd hi'n agor caffi ar lan y môr. Aiff Pegi i Bwllheli ar wyliau pan fydd hi'n teimlo iselder, ac yn cerdded yn ddyddiol ar lan y môr.
- Mae'r nos yn aml yn amser sy'n cyd-fynd â thywyllwch trosiadol. Mae Pegi'n mynd at Mai Davies am gymorth yn y nos. Bydd llawenydd Siôn Pugh ar ôl cwrdd â'i wyres yn troi'n ddigalondid yn y nos, ar ôl i Elen ganfod arwyddion iddi gael ei hesgeuluso. Mae'r foment allweddol o densiwn rhwng Huw a Pegi'n digwydd yn y siop yn y nos.
- Mae patrwm o fatriarchaeth yn y nofel, gyda'r merched yn tueddu ymddangos yn gryfach na'r dynion.

### Crefft yr adeiladwaith

Mae adeiladwaith a strwythur y nofel yn anghyffredin. Ar ddechrau a diwedd 'Blasu', cawn bennod yn y person cyntaf gan Pegi, a hynny a hithau yn hen wraig. Yng ngweddill y penodau, cawn ddod i adnabod Pegi o bersbectif y cymeriadau eraill, sy'n galluogi'r darllenydd i ddod i adnabod Pegi mewn ffordd na chaiff ei hadnabod gan unrhyw un cymeriad yn y nofel.

O ganlyniad i'r ffordd anghyffredin yma o adeiladu nofel, bydd cymeriad Pegi yn cymhlethu gyda phob pennod, a haen arall o'i phersonoliaeth yn cael ei ychwanegu wrth ddod i weld persbectifau gwahanol gymeriadau ohoni.

Gellir ystyried penodau ‘Blasu’ fel straeon byrion unigol, gan nad oes angen cefndir gweddill y nofel er mwyn eu mwynhau. Yn aml, fel ym mhenodau Kenneth Davies a Menna Arthur, profiad byr iawn a gânt yng nghwmni Pegi, ond am wahanol resymau, maent yn brofiadau arwyddocaol a phwysig.

**Llif yr ymwybod**

Cawn glywed lleisiau nifer o wahanol gymeriadau yn ‘Blasu’, a'r cyfan wedi ei ysgrifennu yn y person cyntaf. O'r herwydd, cawn ddod i adnabod personoliaethau gwrthgyferbyniol y cymeriadau, a'r gwahanol ffyrdd y maent yn ymateb i Pegi.

Drwy ddarllen y gwahanol safbwyntiau yma am Pegi, caiff y darllenydd fod yn dyst i nodweddion negyddol a chadarnhaol Pegi. Mae barn Isaac Phyllip a Jennie Williams o Pegi yn negyddol, a'r darllenydd yn teimlo rhwystredigaethau’r cymeriadau hynny. Ond hyd yn oed pan fydd Pegi'n ymddwyn mewn ffordd greulon, fel y mae gydag Isaac Phyllip, mae'r penodau blaenorol a hanes Pegi yn ennyn cydymdeimlad darllenydd. Cawn weld gwreiddiau a'r rhesymeg tu ôl i'w hymddygiad, ei salwch meddwl a'i phroblemau bwyta.

**Arddull yr awdur**

Ceir llawer o ddisgrifiadau synhwyrus a manwl yng ngwaith Manon Steffan Ros, ac mae'n gwneud defnydd aml o drosiadau a chymariaethau. Mae'r ddeialog yn naturiolaidd ac yn anffurfiol. Caiff delweddau eu defnyddio droeon yn y nofel i atgoffa'r darllenydd o ddigwyddiadau blaenorol, er enghraifft y defnydd o lygod mawr, sy'n adlais o'r cawl llygod mawr y coginiodd Jennie i Pegi pan roedd yn blentyn.

Gan mai fel dramodydd y dechreuodd Manon Steffan Ros ei gyrfa ysgrifennu, gellid dadlau bod y penodau yn dod ar ffurf monologau, a'r ffaith eu bod wedi eu hysgrifennu yn y person cyntaf yn eu gwneud yn hawdd i'w perfformio.

Ystyrwich y modd mae'r awdur yn defnyddio arddull yn effeithiol yn y dyfyniadau nesaf.

> "Diferais lond llwy fwrdd o'r triog i'r blawd, a honno'n afon ddu o sglein trwchus, ac yna ychwanegu'r surop euraidd. Toddodd un i'r llall fel olew ac aur. Dŵr o'r tegell ar y Rayburn, ac wy - dim ond un, ond hwnnw'n un mawr o Fferm Ffordd Ddu, a'r melyn yn heulwen lachar.”
>
> *Mai Davies, tudalen 12*

- Trosiad - "afon ddu o sglein trwchus." Dyma ychwanegu at y ddelwedd o afon y pentref.
- Cymhariaeth - "Toddodd un i'r llall fel olew ac aur." Mae hyn yn ategu'r teimlad fod bwyd yn werthfawr.
- Gwrthgyferbyniad - "un mawr o Fferm Ffordd **Ddu**, a'r melyn yn heulwen **lachar**." Dyma awgrymu fod y broses o goginio yn goleuo'r tywyllwch meddyliol i Mai Davies.

> "Doedd dim urddas ganddi. Dim ond ceg fach farus, fel aderyn yn mynnu bwyd o berfedd ei fam."
>
> *Jennie Williams, tudalen 62*

- Cymhariaeth - "fel aderyn yn mynnu bwyd o berfedd ei fam." Mae hyn yn rhoi teimlad cyntefig, anifeilaidd i'r ffordd mae Jennie'n gweld Pegi.
- Mae hyn yn cryfhau'r ddelwedd o Pegi'n anghenus ac yn faich ar ei mam.
- Mae'n amlwg o'r gymhariaeth bod Jennie'n ffieiddio at ei merch.

> "Caeais fy llygaid wrth i Maria folchi ac ymbincio, a'r unig beth oedd i'w weld yn nüwch fy meddwl oedd corff noeth Siw yn ymolchi yn afon Dysynni ar ddiwrnod poeth, a'r coed yn lluchio'u patrymau fel les dros ei chnawd. Bryniau'r dyffryn wedi eu hailadrodd yn ei chorff, fel petai hi'n deyrnged i fro ei mebyd: bronnau a phen-ôl a choesau praff, meddal. Ei bol yn crymanu rhyw fymryn, yn gysur o gnawd, a'r blew tywyll rhwng ei choesau yn feddal fel mwsog."
>
> *Huw Phyllip, tudalen 214*

- Cymhariaeth - "patrymau fel les dros ei chnawd". Dyma ddelwedd sy'n atgoffa darllenydd o ffrog briodas, ac efallai hefyd o'r ffaith na ddewisodd Huw briodi Siw.
- Gwrthgyferbyniad - Mae'r ffordd y disgrifir corff Siw yn hollol wahanol i'r ddelwedd fain, esgyrnog o Maria.
- Natur - Dewisa Huw gymharu Siw â bro ei febyd, dau beth y mae yntau wedi dewis eu gadael.
- Ceir yma adlais o bennod Davey Hoyle (tudalen 47) pan mae Pegi, yn ferch ifanc, yn cael profiad cnawdol, rhamantus gyda Davey ar lan afon Dysynni.

Cwblhewch dablau fel y rhai uchod am y dyfyniadau canlynol:

- "Allan â hi i'r glaw yn sionc, ei ffrog gotwm yn glynu wrth ei chorff erbyn iddi gyrraedd drws y siop, a'r print eiddew arni'n dringo dros ei hesgyrn."

*Dr Thomas, tudalen 149*

- "Estynnodd wy o'r bocs wyau y tu ôl iddi a'i dorri i mewn i'r bowlen, a'r plisgyn llyfn yn hollti'n finiog dan ei chyffyrddiad."

*Merfyn Thomas, tudalen 176*

## Cwestiynau

- Pa fath o nofel yw 'Blasu'?
- A fyddai'r nofel wedi bod yn well o ganlyniad o gael mwy o amrywiaeth mewn tôn rhwng cymeriadau?
- Pam fod yr awdur yn defnyddio gymaint o wrthgyferbyniadau yn y nofel hon?
- Yn eich barn chi, pam fod llawer o'r trosiadau a'r cymariaethau yn rhai sy'n ymwneud â natur?
- Sut mae arddull a chrefft yn cyfrannu at lwyddiant y nofel?

# Cymharu â Nofelau Eraill

Yn yr arholiad mae disgwyl i chi gyfeirio at weithiau eraill. Dyma rai awgrymiadau.

## 'Un Nos Ola Leuad' gan Caradog Pritchard

Hawdd yw gweld dylanwad 'Un Nos Ola Leuad' ar 'Blasu', yn enwedig wrth ystyried i Manon Steffan Ros dderbyn ei haddysg uwchradd ym Methesda, ble lleolir 'Un Nos Ola Leuad', a'i bod wedi datgan ei hoffter o'r nofel.

Gwelwn rai o'r un themâu yn y ddwy nofel:

- Gwallgofrwydd mam
- Bywyd pentrefol
- Pwysigrwydd cyfeillgarwch
- Tad absennol

Yn ogystal â'r rhain, ceir darlun byw o Ysbyty Dinbych yn y ddwy nofel.

## 'Fel Aderyn' gan Manon Steffan Ros

'Fel Aderyn' oedd y nofel gyntaf i oedolion a gyhoeddwyd gan yr awdur, ac mae'n ymdrin â llawer o'r un themâu â 'Blasu.'

- Bro Dysynni
- Etifeddiaeth
- Strwythur y nofel - mae'r ddwy nofel yn dilyn cymeriad o'r crud i'r bedd
- Cyfnod
- Mae'r pwyslais ar ferched
- Tadau absennol

## 'Llanw' gan Manon Steffan Ros

Cyhoeddwyd 'Llanw' yn 2014, dwy flynedd ar ôl 'Blasu', ac mae'r ddwy nofel yn dibynnu ar amrywiaeth o fewn penodau i gynnal strwythur y nofel. Yn 'Blasu', ceir rysáit ym mhob pennod, ac yn 'Llanw', ceir chwedl. Mae'r rysáit a'r chwedl yna'n cyd-fynd gyda'r llinyn storïol yn y bennod.

Unwaith eto, ceir mwy o gyffelybiaethau:

- Bro Dysynni
- Etifeddiaeth
- Cyfnod
- Cyfeillgarwch rhwng merched
- Tadau absennol

Yn ogystal â'r rhain, ceir cyfeiriad yn 'Llanw' a all glymu'r nofel yn uniongyrchol at 'Blasu'. Ar dudalen 54, wrth gyfeirio at Mr Smith, ei hathro Bywydeg, mae Llanw'n dweud:

"Un tro, gwelais o'n gwallgofi'n afresymol gydag un o'r merched yn fy nosbarth, Jennie o Lanegryn. Wn i ddim beth wnaeth o iddi ar ôl ysgol mewn *detention,* ond bu Jennie yn crynu mewn gwersi *Biology* byth wedi hynny."

## Cwestiynau

- Yn eich barn chi, pa awduron sydd wedi dylanwadu ar Manon Steffan Ros?
- Ystyriwch y tebygrwydd rhwng y disgrifiad o 'Un Nos Ola Leuad' pan gaiff y fam ei hebrwng i Ysbyty Dinbych, a'r disgrifiad o Jennie'n gadael i fynd i'r un lle yn 'Blasu'.
- Trafodwch y ffordd y portreadir dynion yn y nofelau 'Blasu' a 'Fel Aderyn'.
- Sut y mae'r pwt byr am Jennie a geir yn 'Llanw' yn effeithio'r ffordd yr ydych yn meddwl amdani? Ydi hyn esbonio cymhlethdodau ei chymeriad yn 'Blasu'?
- Cymharwch gymeriad Pegi yn 'Blasu' gyda chymeriad Llanw yn 'Llanw'.
- Cymharwch 'Blasu' â cherddi, ffilmiau, rhaglenni teledu neu ddramâu sy'n ymdrin â phynciau tebyg.

# Elen Owen yn Holi Manon Steffan Ros

Elen Owen: Dweud ychydig am gefndir 'Blasu'.

Manon Steffan Ros: Roeddwn i'n awyddus i 'sgwennu am fwyd, ac yn meddwl bod o'n sail ddifyr i stori - mae llawer ohonym ni'n cysylltu bwyd efo atgofion, ac mae hynny'n ddifyr i mi. Mae gen i fy hun berthynas gymhleth efo bwyd, ond dwi wedi dod i ddallt mai dyna ydi'r norm, yn enwedig yn fy nghenhedlaeth i. Rydan ni'n tueddu gweld bwyd fel peth nefolaidd neu ddiawledig. Roeddwn i hefyd yn awyddus i 'sgwennu am Lanegryn, pentref bach lle treuliais i lawer o f'amser pan o'n i'n fach. Mae rhywbeth yn ddiarffordd iawn am y lle, ac mae ganddo lawer o lecynnau bach cudd. Dwi wrth fy modd efo'r lle!

E.O.: Pam dewis portreadu Pegi drwy leisiau gymaint o wahanol gymeriadau?

M.S.R.: Rydw i'n hoff iawn o'r syniad nad oes unrhyw un yn ein hadnabod ni go iawn, ac mai dirgel ydi'r rhan fwyaf ohonym ar hyd ein oes. Dwi'n meddwl fod darllenwyr yn dod i 'nabod Pegi yn llawer gwell na mae ei theulu a'i chydnabod. Ac, a dweud y gwir, roedd portreadu Pegi'n hawdd - mae o wastad yn teimlo fel profiad sydd bron yn uwch-naturiol, dod o hyd i gymeriad, achos maen nhw'n ymddangos yn eich pen, wedi eu ffurfio'n llwyr.

E.O.: A oedd hi'n brofiad anodd sgwennu am Ysbyty Dinbych ac afiechyd meddwl?

M.S.R.: Ar y pryd, doedd o ddim yn brofiad anodd - roeddwn i'n dilyn fy nhrwyn o ran plot (ar ôl sgwennu cynllun, dwi wastad yn ei anwybyddu'n llwyr!) ac roedd salwch meddwl Jennie yn rhan annatod o ddatblygiad cymeriad Pegi. Ond yn darllen yn ôl wedyn, dwi yn ei chael hi'n eithaf anodd darllen y darn pan mae Jennie'n fach ac yn dangos creulondeb ofnadwy at yr oen.

Ro'n i wastad yn ymwybodol o Ysbyty Dinbych pan oeddwn i'n tyfu fyny - roedd pobol yn cyfeirio ato'n aml pan es i i'r ysgol ym Methesda. Yn ogystal â hynny, roedd 'Un Nos Ola Leuad' gan Caradog Pritchard yn ddylanwad mawr arna i - y ffilm i ddechrau, ac yna'r llyfr.

E.O.: Mae Bro Dysynni yn lleoliad i lawer o dy nofelau. Pam felly?

M.S.R.: Roedd Mam o Fryncrug, a bellach, dwi'n byw yn Nhywyn efo fy meibion. Ro'n i'n arfer dod yma ar fy ngwyliau pan o'n i'n fach, a dwi wastad wedi licio'r teimlad diarffordd, ynysig sydd yma. Does prin neb yn sgwennu am yr ardal brydferth yma, ac mae 'na ryw hud i'r lle. Mae bywyd yn arafach yma nag ydi o yn y llefydd eraill dwi 'di byw, ac mae hynny'n gweddu'n berffaith i mi!

E.O.: Mae rhai themâu yn amlwg mewn nifer o'ch nofelau - Y cyfnod, y pwyslais ar ferched, y tadau absennol. Pam ydych chi'n meddwl eich bod chi'n cael eich denu i sgwennu am y pethau hynny?

M.S.R.: Mae'r cyfnod yn un dwi wastad wedi mwynhau sgwennu a darllen a dysgu amdano fo. Dwi'n tueddu sgwennu dramâu modern, a nofelau mwy hen ffasiwn! Dwi'n ei chael hi'n anodd rhoi holl fanylion bywyd modern i mewn i nofel tra'n dal gafael ar yr awyrgylch dwi isho - tecstio a facebook a ballu. Mae'r tadau absennol a'r merched cryfion yn rhan o'r un peth, dwi'n meddwl - cryfder merched, hyd yn oed pan nad oedd ganddyn nhw rhyw lawer o bŵer na rheolaeth, a tueddiad fy nheulu fy hun i fagu matriarchiaid!

E.O.: Diolch yn fawr.

# Darllen Pellach

Stori fer sy'n cynnwys cymeriad sy'n cysylltu atgofion â bwyd:
'Wynebau', Manon Steffan Ros, Tu Chwith, cyfrol 33: Croesi Ffiniau. Haf 2010

Cyfraniad Manon Steffan Ros i brosiect *The Madness of North Wales*, sy'n ymateb creadigol i nodiadau meddygol cyn-gleifion Ysbyty Dinbych:
www.madnessofnorthwales.com/mary-ellen-doughan-bethesda/

Erthygl am y broses o gyfrannu at brosiect *The Madness of North Wales*:
'Dimbach', Manon Steffan Ros, Taliesin, cyfrol 150. Gaeaf 2013

Clip fideo o Manon Steffan Ros yn ymchwilio i gefndir cyn-gleifion Ysbyty Dinbych i'r rhaglen *Lleisiau Ysbyty Dinbych*, Cwmni Da.
https://www.youtube.com/watch?v=asAhXokUAnE

Llyfr ffeithiol am hanes gofal iechyd meddwl yng Ngogledd Cymru yng nghyfnod Jennie:
'Care and Treatment of the Mentally Ill in North Wales 1800-2000' gan Pamela Michael.

Adolygiad Gwenan Mared o 'Blasu':
Barn rhifyn 594/595 Gorffennaf/Awst 2012

Adolygiad Marta Klonowska o 'Blasu':
http://golwg360.cymru/blog/tag/blasu

Blog a ysgrifennwyd gan Manon Steffan Ros pan gyhoeddwyd The Seasoning, addasiad Saesneg o 'Blasu':
http://booksbywomen.org/food-is-my-heathcliff/